

laith Pawb

***Cynllun Gweithredu
Cenedlaethol ar gyfer Cymru
Ddwylieithog***

laith Pawb

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog

Rhestr Gynnwys

Rhagymadrodd

- 1. Yr laith Gymraeg a Chymunedau Gymraeg**
- 2. Fframwaith Polisi Cenedlaethol**
- 3. Y Gymuned a'r laith**
- 4. Yr Unigolyn a hawliau ieithyddol**
- 5. Casgliad**

Rhagymadrodd gan y Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

Ein Gweledigaeth

Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth genedlaethol. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol ac oesol o hanes, diwylliant a gwead cymdeithasol ein cenedl. Rhaid i ni barchu'r etifeddiaeth honno a gweithio i sicrhau nad yw'n cael ei cholli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ers dechreuad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i'r achos o adfywio a rhoi egni newydd i'r iaith Gymraeg. Roedd cynllun strategol cyntaf Llywodraeth y Cynulliad, Gwellcymru.com, yn gosod allan fwriad y Cynulliad i feithrin hunaniaeth unigryw ac amrywiol Cymru a hybu manteision dwyieithrwydd. Rhoddwyd hwb ychwanegol i hyn drwy'r ymrwymadau yn '*Cynllun i Gymru 2001*' a oedd yn amlinellu dyheadau cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr iaith Gymraeg:

- *Erbyn 2003-04: sefydlogi'r gyfran o siaradwyr Cymraeg a chynnal y twf ymhlith pobl ifanc*
- *Erbyn 2010: bod mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg, gyda'r cynnydd mwyaf ymhlith pobl ifanc.*

Mae'n gweledigaeth yn un fentrus a chafodd ei mynegi yn ein datganiad polisi ar yr iaith Gymraeg, *Dyfodol Dwyieithog : A Bilingual Future* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002. Mae teitl y ddogfen honno yn crynhoi ein deisyfiad - Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd. Yn *Dyfodol Dwyieithog : A Bilingual Future* roedd Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwmo i baratoi a chyflwyno cyn diwedd 2002 gynllun gweithredu cenedlaethol a fyddai'n datgan yn gwbl eglur y strategaeth a'r adnoddau fyddai'n cael eu neilltuo i gyflawni'r nod o Gymru ddwyieithog. Y cynllun gweithredu hwnnw yw'r ddogfen hon.

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog

Wrth lunio cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod nad yw'n gorfod dechrau o'r dechrau. Dros y tri neu bedwar degawd diwethaf mae llywodraethau'r DU wedi pasio deddfwriaeth a chyflwyno polisiau sydd wedi llwyddo i godi statws yr iaith Gymraeg ac wedi cyfrannu'n bendant at sefydlogi'r dirywiad rhwng 1971 ac 1991. Mae Deddfau Iaith 1967 ac 1993, lansio S4C, yr orsaf deledu Gymraeg yn 1982 a sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 1998 a'r gweithgareddau a ddeilliodd o'r mentrau hyn wedi helpu'n aruthrol i godi proffil a statws yr iaith mewn bywyd cyhoeddus ac yn ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae'n debyg mai'r datblygiadau pwysicaf fu'r rheiny yn y sector addysg lle mae'r cynnydd cyson yn

narpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog wedi cael effaith bendant ar nifer a chanran y plant oed ysgol sy'n gallu siarad Cymraeg.

Cynhaliodd Bwyllgorau Addysg a Diwylliant a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad adolygiad amhrisiadwy o'r iaith Gymraeg dros gyfnod o flwyddyn, a esgorodd ar eu hadroddiad ar y cyd, *Ein Hiaith: Ei Dyfodol*. Roedd yr adolygiad a'r adroddiad ar y cyd yn tynnu sylw at nifer o'r materion yr oedd angen delio â hwy ac roeddent yn cyfrannu at lywio ein trafodaethau polisi.

Mae'r datblygiadau hyn wedi cael effaith bwysig. Mae'r Gymraeg wedi ennill statws, mae ganddi broffil polisi, mae ganddi strwythur strategol rhagweithiol i'w chefnogi ac mae'n berthnasol i fywydau a dyheadau yr ifanc a'r hen fel ei gilydd yng Nghymru. Mae'n debyg bod gennym well amgyffred o gyflwr presennol yr iaith nag oedd gan y cenedlaethau o'n blaen, ond rydym hefyd yn fwy ymwybodol o'r materion a'r sialensau y mae'n eu hwynebu.

Mae'n amlwg bod yna lawer i'w wneud i adeiladu ar y sylfeini hyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg. Efallai na fydd yn waith hawdd, ac efallai na fyddwn yn cyflawni ein targedau dros nos, ond byddwn yn gwneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i greu'r amodau cywir lle y gall yr iaith Gymraeg dyfu a blodeuo ym mhob agwedd o fywyd Cymru. Cam pwysig yn y broses honno yw'r cynllun gweithredu hwn.

Rhodri Morgan AC

Jenny Randerson AC

1. Yr Iaith Gymraeg a Chymunedau Cymraeg

Cyd-destun

1.1 Wrth olrhain cyflwr yr iaith Gymraeg, y ffynhonnell fwyaf helaeth o ddata ystadegol rheolaidd yw'r cyfrifiad poblogaeth, a gynhelir bob deng mlynedd.

Y cyfrifiad: 1901 - 1991

1.2 Gan ddefnyddio data o'r cyfrifiadau ers 1901 mae modd olrhain mewn cyfnodau o 10 mlynedd faint a pha ganran o boblogaeth Cymru 3 oed a throsodd oedd yn siarad Cymraeg. Y darlun sy'n ymddangos yw tuedd gyffredinol ar i lawr rhwng 1901 a 1991 er bod y dirywiad yn arafu ar ddiwedd y cyfnod. Mae'r tabl canlynol yn dangos maint y dirywiad (mewn niferoedd a chanrannau) yn ystod yr 20fed ganrif.

Tabl 1 – Siaradwyr Cymraeg (personau'n bresennol ar noson y cyfrifiad) (a)

Blwyddyn	Personau	Canran	Blwyddyn	Personau	Canran
	(miloedd)			(miloedd)	
1901	- 929.8	49.9	1961	- 656.0	26.0
1911	- 977.4	43.5	1971	- 542.4	20.8
1921	- 922.1	37.1	1981	- 508.2	18.9
1931	- 909.3	36.8	1991	- 500.0	18.5
1951	- 714.7	28.9			

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

(a) Personau yn bresennol 3 oed a throsodd y cofnodwyd eu bod yn siarad Cymraeg ym mhob Cyfrifiad.

Tueddiadau diweddar 1971 - 91

1.3 Yn erbyn y cefndir hwn, roedd ystadegau'r ddau gyfrifiad ers 1971 yn rhoi rhywfaint o reswm dros agwedd ychydig mwy optimistaidd. Er i'r duedd barhau am i lawr, roedd y dirywiad dipyn yn llai amlwg. Syrthiodd y ganran o siaradwyr Cymraeg o 20.8% yn 1971 i 18.9% yn 1981, gyda chwymp bach pellach i 18.5% yn 1991. Er bod hyn yn awgrymu bod y duedd am i lawr wedi dechrau sefydlogi, gwelwyd dau batrwm gwahanol – roedd y gyfran o'r rhai hynny dros oedran ysgol oedd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn dal i ddisgyn, ond i wrthbwysu hynny, roedd twf cryf ymysg plant oed ysgol.

Dosbarthiad daearyddol a demograffig

1.4 Mae dros hanner miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae'r ffordd y maent wedi eu dosbarthu a'u crynhoi ledled y wlad ac ymysg grwpiau oed yn berthnasol i ffurfio strategaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae gan siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin i gyd boblogaethau Cymraeg eu iaith sy'n

cynrychioli dros 50% o gyfanswm y boblogaeth leol. Gyda'i gilydd mae'r siroedd hyn, sy'n cydgyffwrdd yn ddaearyddol, ynghyd ag ardaloedd cyfagos gorllewin Conwy a gogledd sir Benfro, yn creu yr hyn a elwir yn aml yn "Fro Gymraeg". Y tu allan i'r ardaloedd craidd hyn, a rhannau o sir fawr Powys, mae nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg poblogaeth y sir yn tueddu i leihau wrth fynd tua'r dwyrain. Felly mae'r boblogaeth Gymraeg ei hiaith yn fach iawn yng Nghasnewydd, Torfaen, Sir Fynwy a Blaenau Gwent, ac yn cynnwys cyfran fach iawn o gyfanswm poblogaeth y sir.

1.5 Serch hynny, byddai'n anghywir awgrymu fod dyfodol yr iaith Gymraeg yn fater sydd wedi'i gyfyngu i bedair neu bum sir yng ngogledd a gorllewin Cymru. Mae yna nifer fawr o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd o Gymru sydd y tu allan i'r "fro". Mae yna ryw 130,000 o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno yn ne-ddwyrain Cymru rhwng Abertawe a Threfynwy a de Powys, ac mae bron i 20,000 ohonynt yn byw yn ninas Caerdydd. Mae yna hefyd dros 30,000 o siaradwyr Cymraeg yn siroedd Wrecsam a Fflint yng ngogledd-ddwyrain y wlad.

1.6 Mae nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n byw y tu allan i'r "fro" yn sylweddol – ac yn cyfateb i bron i 40% o gyfanswm y boblogaeth Gymraeg ei hiaith. Mae Tabl 2 yn dangos pa mor eang yr oedd siaradwyr Cymraeg wedi'u gwasgaru ledled Cymru ym 1991 yn yr ardaloedd sy'n cyfateb i'r awdurdodau unedol presennol.¹ Rydym yn disgwyl am ffigurau cyfrifiad 2001 ond mae'n annhebygol y bydd y gwahaniaethau rhwng ardaloedd yn llai amlwg.

Tabl 2 – Nifer y siaradwyr Cymraeg yn 1991 yn ôl awdurdod unedol yn nhrefn niferoedd ar i lawr (ffigurau wedi'u talgrynnu) (b)

Awdurdod Unedol	Miloedd	Awdurdod Unedol	Miloedd
Sir Gaerfyrddin	89	Sir y Fflint	19
Gwynedd	78	Caerdydd	19
Ynys Môn	41	Wrecsam	16
Ceredigion	36	Pen-y-bont ar Ogwr	10
Conwy	31	Caerffili	10
Abertawe	28	Bro Morgannwg	8
Castell-nedd Port Talbot	23	Merthyr Tudful	4
Powys	23	Casnewydd	3
Sir Ddinbych	23	Torfaen	2
Rhondda Cynon Taf	20	Sir Fynwy	2
Sir Benfro	20	Blaenau Gwent	2

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a'r Swyddfa Gymraeg

¹ Agregwyd yr ardaloedd cyfrifo a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad 1991 yn unol â ffiniau'r awdurdodau unedol newydd a sefydlwyd ym 1996.

(b) Amcangyfrifon y Swyddfa Gymraeg yn seiliedig ar Gyfrifiad 1991 o'r Boblogaeth. Mae'r ffigurau ar gyfer trigolion Cymru ar ddydd y Cyfrifiad.

1.7 Mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth nag y gellir ei ddangos mewn tabl sy'n dangos data yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae'r mwyafrif o'r nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru wedi'u dosbarthu ymysg poblogaeth lle mae'r mwyafrif helaeth yn ddi-Gymraeg, ond mae cymunedau mewn mannau fel Abertawe, Llwchwyr, cymoedd Aman a Nedd lle mae dros 25% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (a dros 75% ym Mrynaman Isaf a Gwaun-cae-gurwen). Ceir canrannau uchel tebyg o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd eraill y tu allan i'r "fro", yn ne a gogledd Powys er enghraifft.

Yr iaith ar lefel y Gymuned

1.8 Mae'n werth rhoi sylw arbennig i gyflwr yr iaith yn y cymunedau hynny lle roedd dros 70% o'r boblogaeth leol dros 3 oed yn ei siarad ym 1991. Dyma gymunedau lle mae'r ganran uchel o siaradwyr Cymraeg yn golygu mai dyma'r iaith sydd fwyaf tebygol o gael ei siarad mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a busnes ac na fydd wedi'i chyfyngu i'r cartref, y capel a'r ysgol. Yn yr ardaloedd hyn mae'r Gymraeg yn iaith fyw, bob dydd, sy'n cael ei siarad, ei chlywed a'i gweld yn y gymuned: mae'n rhan o wead y gymuned. Dangosodd cyfrifiadau ac arolygon yn ystod y degawdau diwethaf fod nifer y cymunedau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi parhau i ostwng. Gellid dadlau pe bai'r dirywiad yn parhau y gallai fygwth bodolaeth yr iaith Gymraeg gan na fyddai ganddi mwyach amgylchedd naturiol lle câi'r iaith ei siarad yn arferol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol.

1.9 Ar y llaw arall, mewn cymunedau mewn ardaloedd lle mae'r mwyafrif helaeth yn ddi-Gymraeg hyd yn hyn (sef Caerdydd, Glannau Dyfrdwy ac amryw o gymunedau yng ngogledd ddwyrain a de-ddwyrain Cymru yn arbennig) awgryma tueddiadau diweddar fod yr iaith Gymraeg ar gynydd, gan fod tystiolaeth o dwf bychan yng nghyfanswm y siaradwyr Cymraeg. Mae'n debyg fod cyswllt rhwng y cynnydd a'r ffaith fod darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg wedi ehangu yn yr ardaloedd hyn gan fod dadansoddiad o'r proffil oedran yng nghanlyniadau'r cyfrifiad ac arolygon yn dangos twf sylweddol yn nifer y plant oed ysgol sy'n siarad Cymraeg. Er mai bach fu'r twf yn yr ardaloedd hyn, bu'n galonogol. Serch hynny, erys y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn isel mewn perthynas â chyfanswm y boblogaeth leol, ac er gwaethaf y cynnydd ymddangosiadol yn y gallu i siarad yr iaith, o ran ei defnydd mae'n amlwg fod y Gymraeg yn bell o fod yn iaith bob dydd y gymuned ehangach yn yr ardaloedd hyn.

Proffil oed siaradwyr Cymraeg

1.10 Cafwyd tueddiadau gwrthgyferbyniol ymhlith gwahanol grwpiau oedran o fewn poblogaeth Cymru. Cododd canran y siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran i fyny at 15 mlwydd oed yn sylweddol iawn ers 1971. Nid yw'r cynnydd mor amlwg yn y grŵp oed nesaf, sef 15-24 oed, ond mae'r cwmp sylweddol yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg ymysg y

grwpiau oedran hyn wedi parhau. Mae'r tabl canlynol, sy'n deillio o gyfrifiadau 1971, 1981 a 1991 (sef y ffynhonnell fwyaf) yn dangos y gwahanol dueddiadau rhwng grwpiau oedran. Rydym yn disgwyl ffigurau cyfrifiad 2001; maent yn debygol o ddangos gwahaniaeth cynyddol rhwng y gwahanol grwpiau oedran, yn enwedig rhwng y rhai oed ysgol a'r rhai yn y grwpiau oedran hyn.

Tabl 3 - Cyfran o bob grŵp oedran a gofnodwyd fel siaradwyr Cymraeg yng nghyfrifiadau 1971, 1981 ac 1991 (personau'n bresennol)

<i>Grŵp oed</i>		1971	1981	1991
		<i>Canran</i>	<i>Canran</i>	<i>Canran</i>
3-4	-	11.3%	13.3%	16.1%
5-9	-	14.5%	17.8%	24.7%
10-15	-	17.0%	18.5%	26.9%
16-24	-	15.9%	14.9%	17.1%
25-44	-	18.3%	15.5%	14.5%
45-64	-	24.8%	20.7%	17.3%
65 a throsodd	-	31.0%	27.4%	22.6%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

- 1.11 Mae'n fwy na thebyg bod y cynnydd mewn siarad Cymraeg a gofnodir yn y grwpiau oed ysgol yn ddyledus iawn i ddatblygiadau addysgol. Bu cynnydd sylweddol yn y galw am addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg, ac yn y ddarpariaeth, dros yr 20 mlynedd diwethaf, yn arbennig yn y rhannau mwy Seisnigaidd o Gymru. Mae'n debyg bod effaith ystadegol y datblygiad hwn ar lefel gyffredinol siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd lleol yn fwy amlwg mewn ardaloedd fel Caerdydd a Bro Morgannwg lle y byddai nifer gymharol fach o siaradwyr Cymraeg i'w disodoli ymhlith y grwpiau oed hyn.
- 1.12 Priodolwyd y gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg ymhlith y grwpiau oed hyn i nifer o ffactorau, ond yn bennaf ymysg y rhain y mae problemau'r economi wledig yng nghadarnleoedd yr iaith, a'r ffaith bod llawer sy'n atyniadol yn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys prisiau tai. Mae diffyg cyfleoedd economaidd a chymdeithasol i bobl leol iau, mewn oed gwaith, wedi arwain at allfudo o'r ardaloedd gwledig lle mae'r iaith ar ei chryfaf. Byddai llawer o'r rheiny sy'n gadael yn siaradwyr Cymraeg. Ar y llaw arall, oedolion di-Gymraeg ar y cyfan sydd wedi mewnfudo i'r ardaloedd hyn i ymddeol neu brynu tai. Canlyniad y tueddiadau yma yw wrth i'r Cymry Cymraeg hyn farw ni ddaeth yr un niferoedd o Gymry Cymraeg o'r cenedlaethau iau i gymryd eu lle. Mae cyflymder y dirywiad ymysg y grŵp oed 25-44 yn destun pryder arbennig. Dyma grŵp dylanwadol o safbwynt cymdeithasol sy'n cynnwys rhieni, gweithwyr allweddol ac aelodau gweithgar o fewn cymunedau. Byddai'r grŵp oed 25-44 yn cynnwys rhieni plant a all gael cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg yn yr ysgol. Os nad yw'r rhieni hynny hefyd yn siarad Cymraeg, efallai mai ychydig iawn o gyfle a gaiff eu plant i ddefnyddio'r iaith yn y cartref ac efallai y byddant yn colli'r gallu i siarad Cymraeg unwaith iddynt adael

addysg amser llawn. Nid yw iaith sydd wedi'i chyfyngu i'r sector addysg yn iaith fyw.

Casgliad

1.13 Mae'n amlwg hyd yn oed o ddadansoddiad cymharol sylfaenol o gyflwr yr iaith Gymraeg a'i dosbarthiad ledled Cymru fod y darlun cyflawn yn un cymhleth. Roedd y dirywiad yn yr 20fed ganrif yn drawiadol o gyflym ac mae'n amlwg bod angen gweithredu unol a pharhaus, yn seiliedig ar strategaeth glir dymor hir er mwyn i'r iaith gael dyfodol ymarferol. Ond nid yw'r cwestiwn o sut i fynd i'r afael â'r pwnc yn un hawdd ei ateb gan fod amgylchiadau'r iaith Gymraeg yn amlwg yn wahanol iawn, o ran lefelau ymdreiddiad, isadeiledd ieithyddol a thueddiadau diweddar mewn gwahanol rannau o'r wlad ac o fewn sectorau gwahanol o'r boblogaeth. Mae angen strategaeth genedlaethol unol ac egniol ar gyfer yr iaith, ond ni all y strategaeth honno anwybyddu'r gwahaniaethau sydd yn amlwg yn bodoli rhwng ardaloedd a sectorau gwahanol. Dylai strategaeth genedlaethol chwilio am y gwahaniaethau hynny a cheisio mynd i'r afael â gwendidau, adeiladu ar gryfderau a dysgu o brofiadau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i ddull sy'n genedlaethol yn ei rychwant, ond yn ddigon hyblyg i gydnabod a gwneud lle i'r gwahaniaethau hynny a delio â hwy.

Y Ffordd Ymlaen

1.14 Roedd *Dyfodol Dwyieithog – A Bilingual Future*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002, yn ddatganiad cychwynnol o fwriadau cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad mewn meysydd polisi allweddol. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ddilyniant i *Dyfodol Dwyieithog - A Bilingual Future* ac yn nodi'r camau a'r cynlluniau penodol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu defnyddio i geisio cynyddu dwyieithrwydd a chryfhau'r iaith Gymraeg.

1.15 Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn tair llinyn:

(i.) Fframwaith Polisi Cenedlaethol, gyda Llywodraeth y Cynulliad yn gosod yr agenda polisi ac yn darparu arweiniad strategol i gynnal ac annog twf yr iaith Gymraeg;

(ii.) Yr Iaith a'r Gymuned, yn canolbwyntio ar bolisiau a chamau gweithredu sy'n hybu cymunedau sy'n gynaladwy yn economaidd a chymdeithasol ledled Cymru gan gynnwys y rheiny lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn helaeth o fewn y gymuned yn gyffredinol;

(iii.) Yr Iaith a Hawliau'r Unigolyn, yn canolbwyntio ar hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn. Bydd polisiau Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i annog unigolion i ddysgu Gymraeg a'u cynorthwyo a'u galluogi i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd o fywyd Cymru.

2. Fframwaith Polisi Cenedlaethol

Cyflwyniad

- 2.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n gryf i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg. Credwn fod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl a byddwn yn parhau i wneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i hybu ei lles.
- 2.2 Credwn fod angen camau cadarnhaol pellach o blaid yr iaith Gymraeg a bod cyfiawnhad dros eu cymryd; nid oes angen cymaint o gefnogaeth sefydliadol ar y Saesneg fel yr iaith gryfaf a'r iaith fwyafrifol.
- 2.3 Y mynegiant mwyaf cyhoeddus o lefel ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad yw'r arian gwerth sawl miliwn o bunnoedd bob blwyddyn sy'n cael ei roi ganddi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol i brosiectau a chyrrff sy'n gweithio gydag ac o blaid yr iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r arian yn cael ei sianelu drwy gyrrff fel Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y gwahanol ddarparwyr addysg, cyrrff diwylliannol ac, yn fwyfwy, cyrrff sy'n hybu datblygiad economaidd.
- 2.4 Ond mae'r problemau sy'n wynebu'r iaith Gymraeg a'r cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gymhleth ac yn amlochrog. Nid yw darparu ar gyfer twf yr iaith yn y tymor hir a sicrhau hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn rhywbeth y gellir ei gyflawni drwy ystod cul o bolisiau a chynlluniau ariannu a gwaith Bwrdd yr Iaith yn unig. Cred Llywodraeth y Cynulliad fod angen dull mwy cyfannol o wneud polisi a rhoi cefnogaeth i'r iaith Gymraeg a'r cymunedau Cymraeg.
- 2.5 Fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, ein swyddogaeth a'n cyfrifoldeb ni yw cymryd yr arweiniad wrth ddatblygu'r dull cyfannol hwnnw. Byddwn yn gwneud hynny drwy gyfrwng **Fframwaith Polisi Cenedlaethol** a fydd yn datgan yn glir ac yn ddiamwys:
- ein swyddogaeth wrth roi arweiniad gwleidyddol a strategol;
 - y nodau yr ydym am eu cyflawni ac erbyn pryd; a'r
 - strategaethau cyffredinol y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni'r nodau hynny, a gyda help pwy.

Arweiniad gwleidyddol a strategol

- 2.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymo'n gadarn i roi arweiniad gwleidyddol clir a chyfeiriad strategol i bolisi ar yr iaith Gymraeg ac i roi'r gefnogaeth ariannol briodol.
- 2.7 Er bod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn berthnasol i holl Weinidogion y Cynulliad, y mae Gweinidog penodol sy'n aelod o Gabinet y Cynulliad yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu polisi'r iaith Gymraeg o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r sedd yn y Cabinet yn gwarantu bod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn derbyn y sylw a'r ystyriaeth

ddyledus ym mhrosesau gwneud polisiâu a gwneud penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad.

2.8 Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn rhoi cryn gefnogaeth faterol a pholisi i'r iaith Gymraeg. Mae'r awdurdod i ddarparu cefnogaeth o'r fath yn deillio o ddarpariaeth eang adran 32(c) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n galluogi'r Cynulliad i "wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol i gefnogi'r iaith Gymraeg". Mae cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i'r iaith ar sawl ffurf ac yn cael ei gweithredu mewn nifer o wahanol ffyrdd. I enwi dim ond rhai:

- mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu'n uniongyrchol gorff cynllunio cenedlaethol yr iaith Gymraeg, sef Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Caiff cynlluniau gwariant ac amcanion polisi'r Bwrdd eu cytuno'n flynyddol gyda Llywodraeth y Cynulliad;
- rydym yn gweithio gyda'r gwahanol ddarparwyr addysg i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau, y gefnogaeth a'r arweiniad technegol i ddarparu addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog;
- mae gennym yr awdurdod cyfreithiol, o fewn telerau Deddf Iaith 1993, i enwi sefydliadau yn ffurfiol a'u gorfodi i lunio a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg;
- rydym yn ariannu llu o sefydliadau - rhai cyhoeddus, preifat a gwirfoddol - yn y sectorau diwylliannol, hamdden, gofal cymdeithasol. iechyd ac economaidd sy'n gweithredu ledled Cymru, yn aml drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- rydym yn gosod y fframweithiau strategol cyffredinol ar gyfer gwahanol gyrrff cyhoeddus cenedlaethol a lleol sy'n gweithredu yn y sectorau datblygu economaidd, tai a chynllunio sydd â chyfrifoldeb dros ddehongli a rhoi ar waith bolisiâu a all gael effaith sylweddol ar les yr iaith Gymraeg yn lleol.

2.9 Mae'r ymdrechion hyn yn cyflawni llawer, ond credwn bod yna le i gyflawni hyd yn oed rhagor. Credwn y bydd effaith polisiâu a mentrau o blaid yr iaith Gymraeg, rhai uniongyrchol ac anuniongyrchol, gymaint â hynny'n fwy os ydynt yn cael eu cysylltu â strategaeth genedlaethol gydlynol gyda nodau cenedlaethol wedi eu diffinio'n eglur ac yn cynnwys gwell cydlynu, monitro a gwerthuso yn erbyn y strategaethau a'r nodau cenedlaethol hynny.

Cynllun Gweithredu

2.10 Diben y Cynllun Gweithredu hwn yw darparu'r fframwaith strategol cenedlaethol hwnnw. Yn y Cynllun Gweithredu, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud datganiad cyhoeddus am yr hyn yr ydym am ei gyflawni ar ran y Gymraeg, sut y byddwn ni'n cyflawni'n nod a'r hyn yr ydym yn dymuno ac yn disgwyl i'n partneriaid ei wneud i'n cefnogi. Ym mhob adran rydym yn rhestru'r cynlluniau yr ydym ni a'n partneriaid yn eu datblygu a fydd yn cefnogi'r strategaeth genedlaethol ac rydym yn egluro pa gorff sy'n gyfrifol ac yn atebol dros y gweithgaredd hwnnw.

- 2.11 Bydd strwythur y Cynllun Gweithredu yn golygu y bydd swyddogaeth yr holl gyrrff a'r holl fentrau sy'n gweithio dros yr iaith Gymraeg wedi'i diffinio'n eglur ac y bydd ganddynt ymdeimlad eglur o bwrpas o ran eu cyfraniad posibl i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg. Credwn y bydd eglurder pwrpas a chyfrifoldeb yn helpu ac yn llywio'r rheiny sydd â rhan mewn hybu'r gweithgareddau a phawb sy'n poeni am dynged yr iaith.
- 2.12 Bwriadwn i'r Cynllun Gweithredu fod yn broses esblygol ac yn ddogfen fyw. Wrth i gynlluniau ddatblygu, gall y sefyllfaoedd y'u cynlluniwyd ar eu cyfer newid oherwydd effaith y cynlluniau. Mae angen i ni allu olrhain newidiadau o'r fath, canfod ynddynt dueddiadau posib y dyfodol ac oes oes angen, diwygio'n polisïau. Wrth ddatgan ein polisïau yn glir o'r cychwyn cyntaf ac amlinellu'n cyfrifoldebau a'r dulliau gweinyddol i'w cefnogi, credwn y bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn ein galluogi i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i newid.

Ein Nod

- 2.13 Mae'n nod yn un feiddgar. Nid oes dim diben gosod ein targedau'n isel. Nid ydym bellach yn poeni'n unig am sefydlogi nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg. Rydym eisiau gweld cynnydd cyson yn nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- 2.14 Credwn bod lles tymor-hir yr iaith yn dibynnu ar alluogi cynifer o blant cyn oed ysgol a phobl ifanc ag y bo modd i gael gafael ar yr iaith a hynny mor gynnar ag y bo modd. Felly, rydym am gynnal y twf a welwyd yn yr iaith dros y ddau ddegawd diwethaf ymhlith plant oed ysgol, cynyddu nifer y rhieni sy'n siarad Cymraeg sy'n ei throsglwyddo i'w plant ac annog y rheiny sydd wedi defnyddio neu ddysgu'r iaith yn yr ysgol i'w chadw a'i defnyddio ar ôl iddynt adael.
- 2.15 Ond rydym eisiau edrych y tu hwnt i nifer y bobl a all siarad Cymraeg yn unig. Rydym am i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog, sef gwlad lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynonnell amlwg a hyglyw o falchder a chryfder i bob un ohonom.
- 2.16 Nod y mesurau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu hwn yw cyflawni'r targedau allweddol canlynol:

Erbyn 2011 -

- bod y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigwr a ddaw i'r amlwg o gyfrifiad 2001 (*);
- bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal;
- bod cynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg (*);

- bod cynnydd yng nghanran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu rhwng oedolion a phlant ar yr aelwyd (*).
- ei bod yn bosibl i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau, trwy gyfrwng y Gymraeg.

(*) gweler y drafodaeth ym mharagraffau 2.36-38 am ein sylfaen ystadegol bresennol

2.17 Byddwn ni hefyd yn ceisio ysgogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg a'i hamlygrwydd ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd, gan gynnwys gwaith, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol. Arolygon defnydd iaith a ddefnyddid i fesur datblygiadau felly, am eu bod yn gofyn cwestiynau llawer mwy manwl na'r cyfrifiadau neu arolygon swyddogol eraill sydd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu arolygon defnydd iaith a fydd yn cynorthwyo i lywio ein gwaith llunio polisiau a mesur ei effaith.

Beth fydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud

2.18 Er mai gwaith cyrff eraill fydd gweithredu'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at y Cynllun Gweithredu hwn, mae swyddogaeth ganolog allweddol gan Lywodraeth y Cynulliad wrth sicrhau bod y fframwaith y mae'r Cynllun Gweithredu yn gweithio oddi mewn iddo yn genedlaethol ac yn strategol. Gan gydnabod hynny byddwn yn aildrefnu'r ffordd yr ydym yn gweinyddu materion yn ymwneud â'r Gymraeg o fewn Llywodraeth y Cynulliad er mwyn sicrhau, wrth ymarfer ein cyfrifoldebau, ein bod yn gweld yn eglur, ac yn gweithio'n effeithiol ac yn strategol.

2.19 **Yr Uned iaith Gymraeg, a fydd wedi ei leoli o fewn Llywodraeth y Cynulliad**, fydd yn gyfrifol am weithredu Cynllun Gweithredu yr iaith Gymraeg ac am fonitro ac adolygu ei effaith. Rhan o waith yr Uned fydd paratoi adroddiad blynyddol ar gynnydd y Cynllun Gweithredu, y bydd y Gweinidog Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg yn ei gyflwyno i bwyllgor pwnc perthnasol y Cynulliad. Bydd yr Isadrann Bolisi hefyd yn chwarae rhan amlwg wrth ddarparu arweiniad a chefnogaeth i weinidogion a swyddogion y Cynulliad ynglŷn â sut i ddwyn materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i'r "brif ffrwd" wrth lunio polisi a chyflenwi rhaglenni.

2.20 Bydd yr Uned iaith Gymraeg hefyd yn hyrwyddo gweithredu sy'n deillio o Gynllun iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad. Seiliwyd y Cynllun ar yr egwyddor a gynhwysir o fewn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998 y dylid trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Felly mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i weinyddiaeth Llywodraeth y Cynulliad sicrhau wrth wneud busnes ac wrth ddelio â'r cyhoedd a chyrrff allanol ei bod yn gyfan gwbl ddwyieithog ac yn nodi'r gwasanaethau y gall pobl eraill ddisgwyl eu cael yn Gymraeg pan fyddant yn delio â ni.

2.21 Mae Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ac yn sail i'n hymrwymadau yn y Cynllun Gweithredu mewn perthynas â galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith o'u dewis ym mhob agwedd ar fywyd. Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn gyfrifol am ddarparu cyngor a chymorth o fewn Llywodraeth y Cynulliad ar sut i roi'r egwyddorion ar waith a bydd yn monitro ac yn adrodd [i'r Ysgrifennydd Parhaol] ar gynnydd wrth gyflawni'r nodau a amlinellir yn y Cynllun.

Prif-ffrydio'r Gymraeg wrth ddatblygu polisi

2.22 Mae cyfrifoldebau dros bolisiau sy'n effeithio ar gyflwr yr iaith Gymraeg neu a allai wneud hynny yn treiddio drwy bortffolios pob un o Weinidogion ac Adrannau'r Cynulliad. Mae angen i ni sicrhau bod pob cyfle i weithio'n gadarnhaol dros yr iaith yn cael ei ganfod ac y gweithredir arno. Nid yw'n ymarferol nac yn ddymunol i un Gweinidog yn y Cynulliad a swyddogion polisi cefnogi gymryd y fath gyfrifoldeb pellgyrhaeddol. **Rhaid i bob un o Weinidogion y Cynulliad a'u swyddogion rannu'r cyfrifoldeb am ddyfodol y Gymraeg a chymryd perchnogaeth dros ganfod a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn eu meysydd polisi.**

2.23 Felly, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn **prif-ffrydio** ystyriaeth o'r iaith Gymraeg i brosesau gwneud polisi portffolios pob un o Weinidogion y Cynulliad, yn yr un modd ag y gwnaeth yn barod gyda chyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a TGCh (technoleg gwybodaeth a chyfathrebu) gyda strategaeth Cymru Ar-lein. Bydd yr iaith Gymraeg yn bolisi trawsbynciol parhaol a bydd angen i bob Gweinidog a'i swyddogion ystyried goblygiadau eu polisiau eu hunain ar yr iaith, ac a ellid rhoi mwy o gefnogaeth.

2.24 Mae cefnogaeth y Llywodraeth i'r Gymraeg wedi tueddu i ganolbwyntio ar fentrau diwylliannol ac addysgol lle'r oedd y cysylltiad â'r iaith yn amlwg. Mae prif-ffrydio yn golygu gwneud asesiad effaith ieithyddol yn elfen berthnasol mewn polisiau mewn meysydd fel datblygu economaidd a gofal cymdeithasol neu ofal iechyd.

2.25 Mae nifer o'r polisiau a'r cynlluniau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu yn cael eu gweithredu gan Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBau) fel Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, ELWa (Addysg a Dysgu Cymru) ac eraill. Mae'r cyrrff hyn yn datblygu elfennau allweddol o bolisi Llywodraeth y Cynulliad yn y meysydd economaidd, cymdeithasol, iechyd, a diwylliannol ac maent yn atebol i Lywodraeth y Cynulliad am eu cyllid a'u cyfeiriad strategol. Bydd yr ymrwymiad i brif-ffrydio materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn ymestyn hefyd i bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPB). O fis Rhagfyr 2002 **bydd llythyron cylch gorchwyl blynyddol i bob ASPB** yn datgan y bydd prif-ffrydio yn berthnasol i'w fframweithiau datblygu polisi a chyflwyno rhaglenni.

2.26 Byddwn yn annog prif-ffrydio materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg o fewn y cyrrff hynny mewn llywodraeth leol, ac yn y sectorau preifat a

gwirfoddol sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth y Cynulliad i weithredu polisïau Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru. Dylai egwyddorion prif-ffrydio fod yn sail i'r gwaith o wneud polisi a darparu gwasanaethau ar draws holl gyfrifoldebau cyrff o'r fath, nid yn unig y rheiny lle maent yn gweithredu mewn cytgor â Llywodraeth y Cynulliad neu ei hasiant.

2.27 Er mwyn sicrhau cysondeb bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn paratoi a chyhoeddi canllawiau i Adrannau'r Cynulliad ar egwyddorion a chymhwysiad prif-ffrydio. Bydd y canllawiau'n cael eu llunio mewn ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyfarwyddiaeth Ymchwil a Datblygu Llywodraeth y Cynulliad a chan gyfeirio at brofiadau gyda pholisïau trawsbynciol eraill. Bydd yr Uned a Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth law i roi cefnogaeth a chynghor i swyddogion mewn Adrannau Cynulliad eraill.

2.28 Cyfrifoldeb Adrannau perthnasol y Cynulliad sy'n noddi fydd rhoi arweiniad a chefnogaeth i unrhyw ASPB y maent yn gyfrifol amdano a sicrhau bod yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth brif-ffrydio yn cael eu rhoi ar waith gan y Cyrff hynny. Dylai adrannau sy'n gweithio gyda phartneriaid allanol wneud yn siŵr bod gwasanaethau, gweithgareddau neu gynlluniau a gyllidir yn cwrdd ag anghenion ieithyddol y gymuned neu'r cleientiaid targed a'u bod yn cael eu cyflwyno yn ysbryd Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gynnydd y Cynllun Gweithredu (gweler paragraff 2.17 uchod) yn cynnwys adroddiad ar gynnydd prif-ffrydio o fewn ASPBau a chyrrff partner Llywodraeth y Cynulliad mewn llywodraeth leol a sectorau preifat a gwirfoddol.

Y fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith sefydliadol

2.29 Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad gynlluniau ar hyn o bryd i ofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno Mesur Iaith Gymraeg Newydd. Mae statws swyddogol yr iaith yn llawer mwy sicr nag ar unrhyw adeg yn y gorffennol diweddar, diolch i Ddeddfau Iaith 1967 ac 1993. Credwn y bydd y mesurau rhagweithiol a amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu yn cyflawni llawer mwy dros yr iaith Gymraeg dros gyfnod amser byrrach na deddfwriaeth bellach sy'n gorfod mynd drwy Senedd y Deyrnas Unedig.

2.30 Rydym yn cytuno bod lle i weithredu sefydliadol mwy pendant i gefnogi'r iaith Gymraeg, ond rydym yn credu y gall hyn gael ei gyflawni o fewn y ddeddfwriaeth bresennol. Mae tua 200 o gyrff yng Nghymru eisoes yn gorfod gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg o dan Ddeddf Iaith 1993 a byddwn yn parhau i weithio i ganfod rhagor o sefydliadau sydd yn darparu gwasanaethau o natur gyhoeddus y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Bydd Cynlluniau Iaith Gymraeg yn dod yn rwymedigaeth sylfaenol i'r holl gymdeithasau tai o fis Ebrill 2004. Rydym hefyd yn gweithio ar hyn o bryd i ddod â'r cyfleustodau o fewn cwmnasiad Deddf yr Iaith Gymraeg.

- 2.31 Mae angen monitro cynlluniau i wneud yn siŵr eu bod yn effeithiol a bod yr egwyddorion yn cael eu dilyn. Bydd angen eu newid hefyd i gymryd amgylchiadau newydd i ystyriaeth. Felly rydym wedi penderfynu cryfhau gallu Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fonitro ac adolygu'r Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol. Bydd hyn yn galluogi cyrff i adeiladu ar lwyddiannau a nodi meysydd lle gallant ehangu'r ystod o wasanaethau iaith Gymraeg. Dylai olygu hefyd bod gwendidau'n cael eu canfod a'u hunioni cyn iddynt droi'n broblemau.
- 2.32 Er mwyn cael y cyfleon mwyaf posibl i newid deddfwriaeth er mwyn gwella statws yr iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni rhaid mynd y tu hwnt i'r posibiladau a gynigir yn neddf yr iaith Gymraeg 1993. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gydag adrannau Llywodraeth y DU yn Whitehall i ganfod a manteisio ar gyfleon a gynigir gan raglen ddeddfu Llywodraeth y DU. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gyngor a roddir am gynigion deddfwriaethol y DU yn cymryd i ystyriaeth ac yn amlygu unrhyw faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg fel bod ystyriaeth o faterion felly yn cael ei chynnwys fel elfen berthnasol o'r cychwyn cyntaf. O ddi-ddordeb arbennig ar hyn o bryd y mae cynigion i ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi datblygiadau sydd wedi gweld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg mewn tribiwnlysoedd a rheolau'r llys. Credwn mai'r rheithgorau dwyieithog ddylai fod y cam nesaf ymlaen mewn amgylchiadau priodol ac rydym yn pwysu ar Lywodraeth y DU i gyflwyno mesurau addas.
- 2.33 O ran y ddeddfwriaeth sy'n dod oddi wrth y Cynulliad ei hun (hy deddfwriaeth eilaidd) bydd egwyddorion prif-ffrydio yn sicrhau bod Gweinidogion y Cynulliad a'u swyddogion yn cymryd materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i ystyriaeth wrth lunio'r polisi a drafftio'r ddeddfwriaeth.
- 2.34 Rydym hefyd yn cefnogi ac yn annog Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei waith gydag adrannau eraill Llywodraeth y DU yng Nghymru i gynyddu lefelau ac ystod y gwasanaethau y maent yn eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.35 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn asesu lefel y gefnogaeth a roddir i'r iaith Gymraeg gan y Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, ac yn ystyried a ddylai argymhell fod Llywodraeth y DU yn llofnodi cymalau pellach o'r Siarter.

Cynllunio iaith Cenedlaethol a swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg

- 2.36 Mae'r fframwaith strategol cenedlaethol yn amlinellu egwyddorion cyffredinol ein strategaeth - amcanion, swyddogaethau, cyfrifoldebau ac ymrwymadau. Ond mae angen gwneud llawer o waith o dan y lefel honno i ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau a fydd yn helpu i roi'r strategaeth ar waith. Bydd **Bwrdd yr Iaith Gymraeg** yn parhau fel y corff cynllunio iaith cenedlaethol dros Gymru a bydd ganddo rôl ganolog wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y Bwrdd yn parhau i fod yn un

o'r prif gyrff cyflawni cynlluniau sy'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar lefelau lleol a bob dydd, ond bydd ganddo hefyd rôl gryfach wrth galw golwg strategol gyffredinol ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

2.37 Ar y lefel strategol bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

- yn helpu Llywodraeth y Cynulliad i lunio cyngor a chanllawiau ar brif-ffrydio;
- â mwy o allu i fonitro ac adolygu'r Cynlluniau Iaith Gymraeg sydd eisoes yn bod;
- yn datblygu ei allu ymchwil a dadansoddi i helpu i adnabod tueddiadau a bod yn sail i'r gwaith o wneud polisiau y tymor hir;
- yn meddu ar fwy o adnoddau i ddatblygu a rhoi cynlluniau ar waith sy'n helpu i gyflawni'n hamcanion strategol;
- â swyddogaeth ragweithiol wrth ddatblygu rhwydweithiau ymhlith cyrff cyflenwi i hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac arfer gorau;
- â swyddogaeth allweddol i helpu Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod yr holl gyrff a ddylai fod yn rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn gwneud hynny;
- yn helpu i ddarparu trosolwg o "iechyd yr iaith".

2.38 Fel arwydd o'r pwysigrwydd yr ydym yn ei briodoli i swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn rhoi agweddau allweddol o'r Cynllun Gweithredu ar waith, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu **£16 miliwn ychwanegol** (ar ben y Cymorth Grant a raglennwyd yn barod) i'r Bwrdd dros y tair blynedd nesaf. Bydd yr arian hwn yn cael ei wario ar raglenni'r Bwrdd ei hun a bydd hefyd yn galluogi'r Bwrdd i roi grantiau mwy i'w bartneriaid allweddol megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, a'r mentrau iaith.

2.39 Gyda'r cynnydd sylweddol hwn, bydd gwariant y Bwrdd dros y tair blynedd nesaf yn dod i dros £37 miliwn. Bydd yr adnoddau ychwanegol yn galluogi'r Bwrdd i adeiladu ar lwyddiannau ei waith yn y gorffennol, ac i ehangu i feysydd gwaith newydd megis ymchwil i ddefnydd iaith a dadansoddi data, sydd yn sylfaen hollbwysig i gynllunio iaith effeithiol.

2.40 Oherwydd y cynnydd cyffredinol yn y grant, bydd y Bwrdd yn gallu dwysau ei waith yn sylweddol mewn nifer o'i brif feysydd blaenoriaeth dros y tair blynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- galluogi'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau statudol yn fwy cynhwysfawr, yn enwedig mewn perthynas â monitro ac adolygu gweithrediad Cynlluniau Iaith Gymraeg. Bydd y Bwrdd hefyd yn gallu cymeradwyo dipyn mwy o Gynlluniau newydd bob blwyddyn;

- dechrau'r broses o sefydlu presenoldeb rhanbarthol cryf ar gyfer y Bwrdd. Agorir swyddfa ar unwaith yn y gogledd, a bydd uned fydd yn gweithio ar adolygu Cynlluniau Iaith Gymraeg ymysg dyletswyddau eraill yn cael ei lleoli yno. Yn 2003 agorir swyddfa yn y De Orllewin, a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau cymunedol a'r prosiect Twf. Agorir swyddfa hefyd yng ngogledd ddwyrain Cymru yn ystod 2004;
- Bydd dros £1 miliwn yn ychwanegol yn cael ei wario ar y prosiect Twf i berswadio rhieni i siarad Cymraeg gyda'u plant, ac i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg iddynt. Bydd hyn yn talu am fwy o swyddogion maes i weithio ar y prosiect ar draws Cymru; mwy o ddeunyddiau ac adnoddau; ac am ymgyrch hyrwyddo genedlaethol;
- Bydd dros £3 miliwn yn ychwanegol yn cael ei wario ar fentrau a phrojectau yn y gymuned, gan gynnwys y mentrau iaith a naw o brojectau datblygu ardal newydd;
- Bydd dros £3 miliwn yn ychwanegol yn cael ei wario ar fentrau sydd â'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn enwedig yn y sector preifat a chan bobl ifanc, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith a hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Seilir y mentrau hyn ar strategaeth y mae'r Bwrdd yn ei datblygu ar hyn o bryd, ac y bydd yn ymgynghori'n eang arni yn gynnar yn y Flwyddyn newydd;
- Bydd dros £1 miliwn yn ychwanegol yn cael ei wario ar ymchwil a datblygu, dadansoddi data a strategaethau TGCh;
- Rhoddir grantiau ychwanegol o dros £3 miliwn, gan gynnwys grantiau i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, i bartneriaid y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn gweithio gyda'i bartneriaid i sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i gynyddu cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg. Gyda'r grantiau addysg, rhoddir pwyslais ychwanegol ar ganolfannau newydd i hwyr-ddyfodiaid mewn ardaloedd ble mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith

2.41 Prif nodwedd y Cynllun Gweithredu yw ei bwyslais ar roi strategaeth genedlaethol ar waith yn lleol. Bydd y strategaethau cyffredinol a amlinellir yn y Cynllun yn gymwys ar draws Cymru, ond mae'r amgylchiadau a'r anghenion yn amrywio o un ardal i'r llall. Mae angen i'r blaenoriaethau a'r dulliau cyflawni adlewyrchu'r gwahaniaethau hynny rhwng ardaloedd, ac o hynny daw'r pwyslais ar strwythurau cyflawni lleol, a fydd yn cynnwys amrywiaeth o gyrrff, mawr a mân, cenedlaethol a lleol.

2.42 Bydd gweithredu prif-ffrydio yn golygu asesu ansoddol yn ogystal ag asesu meintiol o'r hyn y mae corff wedi ei gyflawni o safbwynt mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Bydd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg swyddogaeth bwysig wrth ddarparu asesiad ansoddol yn

rhinwedd y ffaith y bydd ganddo fwy o allu i fonitro ac adolygu Cynlluniau Iaith Gymraeg yn rheolaidd. Bydd disgwyl i gyrff sy'n gweithredu Cynlluniau ddangos sut y maent yn bwriadu ymgorffori'r dasg o brif-ffrydio materion yr iaith i'r gwaith gwneud polisi a chyflenwi gwasanaeth. Bydd yn rhaid iddynt roi cyfrif am eu gweithrediadau maes o law pan fydd eu cynlluniau'n cael eu monitro a'u hadolygu gan y Bwrdd.

- 2.43 Bydd gan y Comisiwn Archwilio swyddogaeth hollbwysig wrth asesu perfformiad awdurdodau lleol mewn cyflenwi a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd swyddogaethau allweddol hefyd gan y gyrff rheoleiddio ac archwilio gwahanol sy'n monitro perfformiad gyrff cyhoeddus a darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru hefyd wrth sicrhau bod gyrff yn cwrdd â'u rhwymedigaethau o safbwynt prif-ffrydio. Bydd yr Adrannau perthnasol o Lywodraeth y Cynulliad sy'n noddi yn sicrhau, fel rhan o'u cyfrifoldeb dros brif-ffrydio, fod y gyrff rheoleiddio ac archwilio yn rhan o'r broses ac yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau y bydd ganddynt gyfrifoldeb dros eu monitro.

Fforwm Iaith

- 2.44 Roedd *Ein hiaith : ei dyfodol* (adroddiad ar y cyd gan bwyllgorau Diwylliant ac Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad) yn nodi dymuniad ar ran nifer o gyrff oedd â diddordeb mewn cynllunio iaith a darparu gwasanaethau i sefydlu fforwm iaith a fyddai'n caniatáu gwell cydlynid rhwng eu gweithgareddau a chyfle mwy rheolaidd iddynt rannu syniadau ac arfer gorau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried dyletswyddau a strwythur posib ar gyfer y **Fforwm Iaith** a bydd yn ymgynghori ynglŷn â'r cynigion yn 2003.

Datblyg'r gallu i ymchwilio a dadansoddi

- 2.45 Braidd yn gyfyng yw'r ystod o ddata ystadegol ac ymchwil am y Gymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd i wneuthurwyr polisi a chynllunwyr iaith. Mae'r cyfrifiad 10-mllynedd yn darparu gwybodaeth sylfaenol am y niferoedd sy'n medru'r Gymraeg ac mae gwahanol arolygon sampl yn cael eu cynnal o dro i dro, ond mae angen data mwy cynhwysfawr, wedi'i dargedu'n well a mwy rheolaidd er mwyn ein galluogi i weld ac asesu gwir effaith polisïau.
- 2.46 Ym mharagraff 2.16 rydym wedi gosod targedau yn dangos yr hyn yr ydym am ei gyflawni erbyn 2011. Mae'r targedau hynny yn llywio'r ffordd yr ydym yn gwneud polisïau ac yn dyrannu adnoddau. Mae angen i ni allu mesur llwyddiant ein polisïau drwy fesur eu heffaith. Byddwn eisïau adeiladu ar lwyddiannau a dysgu ohonynt, canfod a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau cyn gynted ag y bo modd a chanfod a rhagweld tueddiadau. Wrth i'r amser fynd yn ei flaen, mae'n bosibl y bydd angen newid blaenoriaethau ac adolygu targedau a'u gwneud yn fwy heriol.
- 2.47 Mae angen i'r strategaeth eang a thymor-hir a ragwelir yn y Cynllun Gweithredu hwn gael ei lywio gan ddata mwy rheolaidd, mwy helaeth a

mwy perthnasol. Gall yr atebion i gwestiynau – fel y’u defnyddir mewn Cyfrifiadau Poblogaeth a’u mabwysiadu mewn arolygon eraill - roi persbectif hanesyddol cyffredinol yn unig. Felly byddwn yn darparu adnoddau i alluogi Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda chymorth Cyfarwyddiaeth Ymchwilio a Datblygu Llywodraeth y Cynulliad, i **ddatblygu, crynhoi a chyhoeddi amrywiaeth o ddangosyddion ystadegol** am batrymau tueddiadau a rhagolygon am lefelau gallu yn y Gymraeg ac am y defnydd ohoni. Ein nod hefyd yw datblygu **technegau arolygon defnydd iaith** i gasglu gwybodaeth am lefelau rhuglder yn y Gymraeg, amlygrwydd yr iaith a hyder wrth ddefnyddio’r iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd ymhlith pethau eraill. Bydd yr amrywiaeth ehangach hwn o ddata yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio gwneud polisi a blaenoriaethu a bydd yn ein galluogi i dargedu, olrhain, cloriannu ac adolygu effaith polisiâu a rhaglenni.

Creu Polisiâu Seiliedig ar Dystiolaeth

2.48 Er hynny, nid mater o ddarparu amrywiaeth o ddangosyddion ystadegol yn unig yw gosod sylfeini cadarn ar gyfer strategaeth ymatebol a thymor hir i’r iaith Gymraeg. Bydd angen dull cynhwysfawr a hollol gydlynus o gynnal gwaith ymchwil a datblygu er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad a’i holl bartneriaid yn derbyn gwybodaeth a chynghor amserol yn ystod y camau allweddol o weithredu, parhau i ddatblygu ac adolygu’r cynllun gweithredu. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro yn erbyn targedau a, ble bo hynny’n briodol, byddwn yn ymgymryd ag ymchwil i gynnull a chymhwyso tystiolaeth o raglenni, cynlluniau a pholisiâu tebyg yn rhyngwladol.

Adolygiad

2.49 Cynhelir adolygiad trylwyr o’r cynllun gweithredu fel rhan o’r broses hon o ddadansoddi ac adolygu yn ystod 2007.

Casgliad

2.50 Yn y bennod hon rydym wedi amlinellu’r fframwaith strategol y byddwn yn ei ddefnyddio i gymryd camau i gefnogi’r iaith Gymraeg. Yn y ddwy bennod nesaf byddwn yn disgrifio’r gwahanol gamau sy’n rhan o’r Cynllun Gweithredu hwn, sef y dulliau ymarferol y byddwn yn eu defnyddio gan obeithio cyflawni’n amcanion.

Camau Gweithredu - Fframwaith Cenedlaethol

Disgrifiad	Pwrpas	Corff Arweiniol
Prif-ffrydio	<p>i. i sicrhau bod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys fel elfennau perthnasol wrth ddatblygu polisïau a chyflenwi gwasanaethau ar draws holl adrannau'r Cynulliad a'r holl ASPBau</p> <p>ii. i sicrhau bod llythyrau cylch gorchwyl i bob ASPB yn cynnwys gofyniad prif-ffrydio</p> <p>iii. i fonitro cynnydd y Cynllun Gweithredu, ei adolygu a'i ddiweddarau wrth i'r broses brif-ffrydio ddechrau cael effaith</p>	Llywodraeth y Cynulliad
Sefydlu Uned Bolisi'r iaith Gymraeg o fewn gweinyddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru	i. hwyluso'r broses o weithredu a monitro Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad	Llywodraeth y Cynulliad
Fframwaith deddfwriaethol	<p>i. Llywodraeth y Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i'r nifer mwyaf posibl o gyrff baratoi cynlluniau iaith Gymraeg</p> <p>ii. Cysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod cynigion deddfwriaethol yn cymryd materion yn ymwneud â'r Gymraeg i ystyriaeth</p> <p>iii. mwy o fonitro ar Gynlluniau iaith Gymraeg presennol a helpu i ddatblygu a gweithredu rhai newydd</p>	<p>Llywodraeth y Cynulliad.</p> <p>Llywodraeth y Cynulliad.</p> <p>Bwrdd yr Iaith Gymraeg</p>
Cynllunio iaith - mesurau datblygu strategol	<p>i. ymgynghori ynglŷn â'r cynigion ar gyfer Fforwm Iaith yn 2003</p> <p>ii. datblygu, crynhoi a chyhoeddi ystod o ddangosyddion ystadegol ac arolygon defnydd iaith ynglŷn â defnydd yr iaith, lefelau rhuglder, ymdreiddiad ayb</p> <p>iii. crynhoi a chyhoeddi arweiniad ar brif-ffrydio</p>	<p>Llywodraeth y Cynulliad</p> <p>Bwrdd yr Iaith Gymraeg/ Llywodraeth y Cynulliad</p> <p>Llywodraeth y Cynulliad/ Bwrdd yr Iaith Gymraeg</p>

3. Y GYMUNED A'R IAITH

Cyflwyniad

3.1 Mewn ardaloedd helaeth o Gymru y Gymraeg yw prif iaith mwyafrif neu gyfran sylweddol o'r trigolion. Yn yr ardaloedd hyn mae'r iaith yn cael ei chlywed neu ei siarad fel mater o drefn mewn amgylchedd pob dydd naturiol. Mae nifer a chryfder y cymunedau sy'n defnyddio'r Gymraeg yn bennaf wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhesymau dros y dirywiad yn gymhleth: diffyg gwaith a chyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc a fagwyd yn lleol a'r rheini'n symud i ffwrdd o ganlyniad; dirywiad yn y diwydiannau traddodiadol oedd yn cyflogi cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg; y mewnfudiad o'r di-Gymraeg, yn bennaf yn yr ardaloedd mwy gwledig ac arfordirol, hefyd (ond yn fwy anodd ei fesur) newid mewn agweddau cymdeithasol tuag at siarad Cymraeg y tu allan i'r cartref a'r ysgol.

3.2 Mae dirywiad y cymunedau Cymraeg eu hiaith yn achos pryder i Llywodraeth y Cynulliad, ond mae'n rhan o broblem ehangach o newid economaidd, symudiad poblogaeth a dadfeiliad cymdeithasol sy'n effeithio ar rannau helaeth o Gymru, yn y wlad a'r trefi, ac nid ardaloedd Cymraeg yn unig. Ond nid oes gennym amheuaeth na fydd iechyd a datblygiad egniïol yr iaith Gymraeg o dan fygythiad difrifol os yw'n peidio â bod yn iaith sydd â phresenoldeb cryf yn y gymuned.

3.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn argyhoeddiedig ei bod yn holl bwysig cadw'r Gymraeg yn iaith gymuned fyw os yw'r iaith i ffynnu a bod yn llewyrchus. Mae dyfodol cymdeithasol ac economaidd i gymunedau Cymraeg yn golygu dyfodol hyfyw i'r iaith Gymraeg, ac mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r nod polisi hwn. Yn yr un modd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod yr iaith yn cael ei hyrwyddo a'i datblygu yn y cymunedau hynny lle mae twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

Hybu Cymunedau sy'n Gynaliadwy yn Economaidd a Chymdeithasol

3.4 Cred Llywodraeth y Cynulliad nad yw'n briodol ceisio mynd i'r afael ag amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd cymunedau Cymraeg ar eu pen eu hunain. Ni all rywun wahanu cymunedau Cymraeg oddi wrth weddill Cymru: nid yw amgylchiadau'r cymunedau Cymraeg eu hiaith yn unffurf ac mae'r rhesymau dros eu difreintedd mor niferus ac mor amrywiol ag yng nghymunedau eraill Cymru. Cred Llywodraeth y Cynulliad mai'r ateb i gymunedau difreintiedig Cymraeg eu hiaith yw ein strategaethau cenedlaethol i hybu cymunedau sy'n gynaliadwy o safbwynt economaidd a chymdeithasol (yn enwedig **Cymru'n Ennill a Chymunedau'n Gyntaf**). Rhoddir mynegiant i'r strategaethau hynny trwy hyrwyddo polisiâu sy'n helpu i gefnogi a chryfhau fframwaith cymdeithasol ac economaidd cymunedau, tra'n parhau'n sensitif i amgylchiadau lleol. Ein nod yw galluogi unigolion o fewn y cymunedau hynny i barhau i fyw a gweithio yno os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

3.5 Mae nifer o raglenni Llywodraeth y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru eisoes yn gweithredu'n anuniongyrchol i gefnogi'r iaith Gymraeg drwy gefnogi datblygiad economaidd yn yr ardaloedd Cymraeg. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod angen mwy na dim ond rhoi rhaglenni yn eu lle sy'n gweithredu'n anuniongyrchol i gefnogi'r iaith Gymraeg drwy gefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Ein nod yw sicrhau bod ein rhaglenni cyffredinol wedi'u teilwra i barchu ac ystyried amgylchiadau lleol yn y cymunedau sydd i fanteisio arnynt. Byddwn yn sicrhau bod ein mentrau cymunedol yn cael mwy o effaith ar yr iaith Gymraeg trwy ganolbwyntio ar y canlynol:

- **Prif-ffrydio** - mae'r polisi o brif-ffrydio yn golygu bod Llywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau wedi ymrwymo i ystyried materion ynglŷn â'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu eu polisïau a chyflawni eu rhaglenni (gweler paragraffau 2.22-2.28 uchod). Bydd angen cymryd i ystyriaeth effaith bosibl, negyddol neu gadarnhaol, polisïau a rhaglenni yn y cyfnodau paratoi a'u mesur a'u hasesu wrth iddynt gael eu gweithredu ac ar ôl hynny. Mewn rhai rhaglenni mewn rhai ardaloedd bydd angen rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau iaith nag mewn rhaglenni eraill - ond bydd yn ffactor ym mhob achos;
- **Targedu** – mewn rhai ardaloedd o Gymru gallai fod yn addas i lunio a gweithredu rhaglenni datblygu economaidd a chymdeithasol ychwanegol sydd wedi eu targedu'n gryf at siaradwyr Cymraeg. I wneud hyn byddai'n rhaid wrth fframwaith cynhwysfawr o gysylltiadau rhwng iaith ac economi ac efallai byddai angen gwaith ymchwil newydd penodol. Gellid gosod rhaglenni wedi eu targedu, er enghraifft, mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith lle nid oes ond ychydig o weithgarwch busnes brodorol o'r fath yn digwydd.

Y Camau

3.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn symud ymlaen gydag amrywiaeth o raglenni a mentrau sydd â'r nod o gryfhau cymunedau difreintiedig ledled Cymru. Ar y cyfan, cynlluniwyd y rhain gyda golwg ar Gymru gyfan, ond mae'r rhan fwyaf yn berthnasol i anghenion cymunedau Cymraeg eu hiaith a gall eu heffaith yn nhermau'r Cynllun Gweithredu hwn gael ei chrynhoi o dan y penawdau canlynol:

- a) **datblygu economaidd** – mae sail economaidd cynaliadwy a darparu cyfleoedd busnes a chyflogaeth yn hanfodol er mwyn creu cymunedau cynaliadwy;
- b) **adfywio cymunedol** – annog cymunedau i gymryd eu tynged yn eu dwylo'u hunain a'u helpu i gyflawni'r hyn y maent yn ei ddymuno i'w cymunedau;
- c) **yr iaith Gymraeg fel rhan o wead y gymuned** – gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn rhan annatod o adfywiad cymuned Gymraeg ei hiaith;
- ch) **symudiad poblogaeth** - sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol ac ieithyddol cymuned.

(a) Datblygu economaidd

3.7 Mae Strategaeth Economaidd Genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad, **Cymru'n Ennill** yn darparu'r fframwaith ar gyfer trawsnewid economi Cymru, tra'n hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Mae'r strategaeth yn cydnabod nad yw twf economaidd yn gynaliadwy tra bod buddiannau'r amgylchedd a'n cymunedau sefydlog yn cael eu diystyru. Mae'r strategaeth yn nodi'r prif elfennau sy'n ysgogi'r economi, fel arloesedd, entrepreneuriaeth, datblygu sgiliau a hyrwyddo technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, ac mae ystod o raglenni yn eu lle i hyrwyddo'r rhain ledled Cymru. Bydd cymunedau Cymraeg yn elwa o'r cyfleon economaidd a chyflogaeth y mae datblygiad busnes yn ei gynnig i'r boblogaeth leol.

Cynhyrchu Busnes a Menter

3.8 Mae nifer o strategaethau a rhaglenni datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad, er eu bod yn genedlaethol eu rhychwant, yn cael eu gweithredu trwy ganolwyr lleol, ac maent wedi eu targedu at gynhyrchu twf busnes sy'n sensitif i faint a natur cymunedau lleol. Bwriad mentrau megis **Cyllid Cymru ccc** a'r **Gronfa Benthyciadau Cymunedol** a'r **Sefydliad Datblygu Cymunedol Ariannol** yw meithrin a chynnal agwedd fwy mentrus trwy roi nawdd a chefnogaeth busnes i amrywiaeth eang o unigolion, cwmnïau a mentrau cymunedol. Mae strategaeth arloesedd uchelgeisiol Llywodraeth y Cynulliad, **Cymru o Blaid Arloesi**, a lansiwyd yn ddiweddar at bwrpas ymgynghori, yn ceisio hyrwyddo arloesedd, ymchwil a datblygiad, trosglwyddo technoleg a datblygu cynnyrch newydd a thrwy hynny gynyddu ein gallu i gystadlu fel rhanbarth.

3.9 Effaith dod â materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i'r brif ffrwd fydd ei gwneud yn ofynnol i reolwyr y rhaglenni hyn ystyried eu heffaith ar y Gymraeg yn fwy uniongyrchol, a bod yn fwy ymwybodol o'r posibiladau a ddaw o gysylltu strategaethau lleol â mentrau ieithyddol a diwylliannol o blaid yr iaith gyda'r nod o gael yr effaith fwyaf posibl ar y gymuned. Bydd y mecanweithiau cyflenwi rhaglenni hefyd yn rhoi ystyriaeth i gymeriad Cymraeg cymunedau penodol ac yn sicrhau fod hyn yn cael ei ystyried wrth ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal, mae angen hyrwyddo potensial masnachol sectorau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg i'r eithaf.

3.10 Yn sail i hyn y mae'r angen i wybod llawer mwy am y cysylltiadau rhwng datblygiad economaidd a'r iaith. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r WDA a Menter a Busnes i ddatblygu **fframwaith ar gyfer ymchwil a datblygu** a fydd yn sail well i'r berthynas rhwng yr economi a'r iaith ar lefelau strategol a gweithredol.

3.11 Mae nifer o gynlluniau sydd eisoes yn targedu siaradwyr Cymraeg ac yn rhoi cefnogaeth amlwg i'r iaith. Nod y rhaglen "**Potentia**", sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth, yw annog entrepreneuriaeth ymysg grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt ac mae'n darparu cymorth cyn cychwyn busnes i siaradwyr Cymraeg (ymysg eraill) o bob rhan o Gymru i

ymuno â byd busnes. Mae Potentia hefyd yn darparu hyfforddiant ac yn codi ymwybyddiaeth y **Porth Busnes** ynglŷn â sut i weithio â grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys y **Ffatri Fenter**, sy'n rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ifanc flasgu byd busnes eu hunain a **Cwlwm Busnes**, gwefan arloesol sy'n darparu cyfleuster rhwydweithio busnes rhithwir ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Caiff y rhaglenni hyn eu gwerthuso'n ofalus cyn penderfynu a ddylid darparu unrhyw adnoddau pellach.

3.12 Mae WDA, ELWa (Dysgu ac Addysgu Cymru) a Bwrdd Croeso Cymru yn gweithio mewn partneriaeth agos â **Menter a Busnes**, cwmni datblygu economaidd, i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gwireddu eu potensial ym meysydd busnes, cyflogaeth a chymunedol er budd yr economi a'r iaith Gymraeg. Mae Menter a Busnes yn gweithio tuag at gynyddu hyder a sicrhau newid sylweddol yn agwedd siaradwyr Cymraeg tuag at fusnes a'r economi yn gyffredinol. Mae'n gyfrifol am y **Gwobrau Menter** sy'n gwobrwyo siaradwyr Cymraeg sy'n llwyddo ym myd busnes a busnesau llwyddiannus sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Nod y gwobrau yw hyrwyddo modelau rôl ar gyfer siaradwyr Cymraeg eraill. Mae Menter a Busnes hefyd yn ymwneud â'r cynllun **Gorwelion** sy'n ceisio ymestyn gorwelion y gweithlu Cymraeg ei iaith ac annog y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle.

3.13 Mae'r rhaglenni hyn yn helpu busnesau newydd i gychwyn ac yn darparu amrediad o wasanaethau cymorth a chynngor. Y nod yw annog, cefnogi a datblygu pobl fusnes a'u mentrau a fydd yn helpu i greu cymunedau yng Nghymru sydd â'r gallu i gynnal a chefnogi'r bobl hynny sy'n dymuno aros yno.

Twristiaeth

3.14 Mae **twristiaeth** yn ddiwydiant pwysig yng Nghymru o safbwynt y swyddi y mae'n eu darparu, y refeniw a ddaw yn ei sgîl a'r cymunedau y mae'n helpu i'w cynnal. Mae nifer fawr o gymunedau Cymraeg eu hiaith drwy'r wlad yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth am eu heinioes economaidd.

- Mae hyrwyddo **cynnyrch twristiaeth "Cymru"** yn ffordd bwysig ac unigryw o ddenu mwy o ymwelwyr, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol y dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion y cymunedau y gobeithiwn y byddant yn elwa o'r mewnlifiad o ymwelwyr. Mae'r iaith Gymraeg yn ffactor allweddol i'w ystyried – fel atyniad posib ynddi'i hunan ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r iaith o fewn y diwydiant twristiaeth.
- Mae'r iaith Gymraeg yn gyswllt grymus ag agweddau diwylliannol a chymdeithasol eraill sy'n cynnig pecyn mor wahanol i dwristiaid yng Nghymru ac yn rhoi mantais gystadleuol dros rannau eraill o'r DU. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn datblygu ei becyn cymorth 'Synnwyr o Le' fel rhan o'i **strategaeth twristiaeth ddiwylliannol**. Bydd hyn yn

golygu dod o hyd i arfer gorau o ran sut i greu synnwyr o le, a sut i'w gynnal a'i ddefnyddio i'r eithaf, a'i rannu â'r rhai sy'n gweithio ym maes twristiaeth – a bydd yr iaith Gymraeg a diwylliant dwyieithog Cymru yn rhan ganolog o hyn. Mae'r Bwrdd Croeso hefyd yn ymchwilio'r gyda'r gwahanol bartneriaid sy'n ymwneud â thwristiaeth ddiwylliannol megis Cyngor y Celfyddydau, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, i'r ffordd orau o farchnata'r gwahanol gynhyrchion.

- Mae'r Bwrdd Croeso hefyd yn gweithio gyda gweithredwyr atyniadau yn y **sector preifat** i ddarparu gwasanaeth dehongli a thywyswyr cyfrwng Gymraeg ac i ddatblygu cronfa ddata o sefydliadau llety lle mae'r staff yn siarad Gymraeg a lle y gall siaradwyr a dysgwyr ddefnyddio'r iaith.
- Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn annog y Bwrdd Croeso i edrych ar ffyrdd o gael **mwy o siaradwyr Gymraeg i gymryd rhan yn y diwydiant** – datblygiad a fyddai'n ategu'r fenter twristiaeth ddiwylliannol.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn rhoi nawdd i'r Bwrdd Croeso i ddatblygu ei **System Rheoli Cyrchfan** a fydd yn galluogi'r diwydiant twristiaeth i gyfathrebu yn Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg fel pwynt gwerthu. Bydd gwasanaeth cyfieithu rhad ac am ddim i'r Gymraeg ar gael i fusnesau sy'n rhoi manylion ar y system yn 2003.

Camau Gweithredu

Disgrifiad	Pwrpas	Corff Arweiniol
Cyllid Cymru ccc	Yn darparu cyllid a chefnogaeth rheoli i fusnesau a mentrau cymunedol	WDA
Sefydliad Datblygu Cymunedol Ariannol	Yn cynorthwyo mentrau cymunedol a thwf yr economi gymdeithasol a ffurfio cwmnïau newydd mewn ardaloedd difreintiedig	Llywodraeth y Cynulliad / WDA
Cymru o Blaid Arloesi	Rhaglen i gynyddu arloesedd, ymchwil a datblygu, trosglwyddo technoleg a datblygu cynnyrch newydd - er mwyn gwneud y rhanbarth yn fwy cystadleuol	Llywodraeth y Cynulliad/ WDA
Fframwaith Ymchwil a Datblygu	Datblygu fframwaith ymchwil a datblygu sy'n sail well i bolisiau sy'n effeithio ar yr economi a'r iaith	WDA/ Llywodraeth y Cynulliad / Menter a Busnes

Potentia - (rhan o EAP - yn targedu amrywiaeth o grwpiau)	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn busnes	WDA / Menter a Busnes
Ffatri Fenter	Cyfle i bobl ifanc i gael blas ar fusnes	WDA / Menter a Busnes
Cwlwm Busnes	Cynllun rhwydweithio busnes ar gyfer siaradwyr Cymraeg	Menter a Busnes
Gorwelion	Ehangu gorwelion y gweithlu Cymraeg ei iaith ac annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	Menter a Busnes / WDA / ELWa
Gwobrau menter	Gwobrau busnes iaith Gymraeg blynyddol	Menter a Busnes / WDA / y Bwrdd Croeso
Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol	Defnyddio'r iaith Gymraeg a diwylliant dwyieithog i helpu i hyrwyddo Cymru fel cynnyrch twristiaeth unigryw yn y DU	Y Bwrdd Croeso / Llywodraeth y Cynulliad
System Rheoli Cyrchfan	Caniatáu i'r diwydiant twristiaeth gyfathrebu ledled Cymru, yn Gymraeg, ar bob lefel.	Y Bwrdd Croeso

(b) Adfywio cymunedol

3.13 Mae'r problemau sy'n wynebu'n cymunedau difreintiedig yn gymhleth a dim ond rhan o'r broses o adfywio'r ardaloedd hyn yw pecyn o fesurau datblygu economaidd. Mae ein strategaeth ar gyfer creu cymunedau cynaliadwy yn economaidd a chymdeithasol hefyd yn mynd i'r afael â'r ystod o broblemau cymdeithasol, economaidd, addysgol, diwylliannol a demograffig, sydd yn aml yn perthyn i'w gilydd, sy'n poeni'n cymunedau mwyaf tlawd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llunio nifer o raglenni sy'n mynd i'r afael â phroblemau'n cymunedau difreintiedig mewn dull cyfannol.

3.14 Yr athroniaeth sy'n sail i'n strategaeth adfywio yw fod yr ateb i broblemau cymuned i'w chanfod mewn gwirionedd o fewn y gymuned ei hunan. Ein nod yw rhoi grym i'r cymunedau a'u galluogi i benderfynu drostynt eu hunain beth sydd angen ei wneud i adfywio eu hardaloedd, a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau cyflwyno a ddatblygwyd yn lleol.

3.15 Mae'r athroniaeth hon o alluogi a rhoi grym yn arbennig o berthnasol i'r ardaloedd Cymraeg. Mater i'r gymuned yw penderfynu i ba raddau y mae eu cynlluniau adfywio yn asesu ac yn ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg yn eu hardal. Bydd Llywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi, galluogi ac annog cymunedau mewn ardaloedd Cymraeg i ystyried materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn eu cynlluniau ac yn y ffordd y byddant yn cynnal eu busnes. Yn y pen draw, fodd bynnag,

mater i'r gymuned ei hun yw sylweddoli fod rhaid iddi ysgwyddo'r cyfrifoldeb, os yw'r iaith i oroesi o'i mewn.

Rhaglenni cymunedol

3.16 Ar y lefel genedlaethol, mae gan Lywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau amrediad o raglenni sy'n ceisio hyrwyddo adfywio cymunedol mewn ardaloedd trefol a gwledig. Enghraifft o'r strategaeth o hyrwyddo adfywio trwy alluogi cymunedau a rhoi grym iddynt yw **Cymunedau yn Gyntaf**, rhaglen flaengar Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn buddsoddi dros £80 miliwn rhwng 2002 a 2005, mewn delio â thlodi a difreintedd cymdeithasol yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru, ac mae llawer ohonynt yn gymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar y wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac yn cynnwys targedu arian a gwasanaethau'r sector cyhoeddus at yr ardaloedd a glustnodwyd. Y bobl sy'n byw yn y cymunedau sy'n penderfynu beth sydd ei angen i adfywio eu hardaloedd.

3.17 Yr un yw athroniaeth Awdurdod Datblygu Cymru tuag at adfywio dan arweiniad y gymuned. Mae ei '**becyn cymorth**' **adfywio cymunedol** yn darparu cymysgedd o gymorth refeniw a chyfalaf i broiectau cymunedol sy'n seiliedig ar agwedd gyfannol tymor hir tuag at adfywio.

3.18 Ychwanegir at werth ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu a gweithredu polisiau economaidd a chymdeithasol sy'n ystyried amgylchiadau lleol yn sgîl datblygu **Fframweithiau Adfywio Is-ranbarthol**, megis y rhai hynny sy'n cael eu paratoi gan Bartneriaeth y Canolbarth a Fforwm Economaidd Gogledd Cymru. Bydd y fframweithiau hyn yn darparu cyddestun is-ranbarthol defnyddiol ar gyfer datblygu polisiau ac yn helpu ffora rhanbarthol a phartneriaethau i gynllunio sut i wella lles economaidd eu rhanbarthau a hyrwyddo cyfleoedd i'r eithaf o fewn pob rhanbarth. Bydd effaith polisiau cymdeithasol ac economaidd ar yr iaith Gymraeg yn un o brif ystyriaethau'r partneriaethau.

Adfywio gwledig

3.19 Mae amrediad o raglenni Llywodraeth y Cynulliad, a gynlluniwyd i hyrwyddo adfywiad gwledig, yn delio ag anghenion cymunedau cefn gwlad. Nodau tymor hir **Gweithredu Cymunedau Gwledig** a'r **Rhaglen Datblygu Gwledig** yw annog arallgyfeirio ac adeiladu ar allu lleol trwy weithio gyda chyrrff lleol i ddatblygu a gweithredu prosiectau a mentrau y nodwyd eu bod yn cwrdd ag anghenion lleol. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r WDA hefyd yn ymwneud â chyflwyno rhaglen **LEADER+** yr Undeb Ewropeaidd, sydd â'r nod o greu cyfleoedd busnes a chyfleoedd cymdeithasol mewn cymunedau gwledig. Erbyn 2006, bydd Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi dros £15 miliwn yn y tair rhaglen hon.

3.20 Mae siaradwyr Cymraeg yn elfen fawr o'r boblogaeth leol mewn llawer o'r cymunedau gwledig y mae'r rhaglenni hyn yn eu targedu a bydd galluogi'r cymunedau hynny i ddod yn gynaliadwy o safbwynt economaidd a

chymdeithasol yn annog pobl i aros neu ddychwelyd yno. Bydd yr iaith Gymraeg yn thema allweddol wrth gyflwyno rhaglenni a bydd rheolwyr rhaglenni yn cael pob anogaeth a chefnogaeth i ddefnyddio'r iaith wrth gynnal busnes a chyflwyno gwasanaethau.

3.21 Er mai elfen cymharol fach o economi gyffredinol Cymru ydyw, mae'r cysylltiadau rhwng ffermio a'r iaith Gymraeg yn gryf. Mae dros hanner y rheini sy'n gweithio ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru yn siarad Cymraeg a ffermio yw un o "gadarnleoedd" yr iaith Gymraeg. Mae strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer amaethyddiaeth, **Ffermio ar gyfer y Dyfodol** yn cydnabod hyn yn amlwg. Nod canolog y strategaeth yw helpu amaethyddiaeth yng Nghymru i addasu mewn ffyrdd a fydd yn galluogi cymaint o ffermydd teuluol at y bo modd i oroesi ac mae'n pwysleisio dimensiwn cymdeithasol cynaliadwyedd. Felly, mae pwysigrwydd ffermio i'r iaith Gymraeg eisoes yn rhan o feddylfryd polisi y brif ffrwd. O fewn y fframwaith polisi hwn, bydd **Cyswilt Ffermio** yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth helpu nid yn unig ffermwyr fel unigolion ond teuluoedd ffermio yn fwy cyffredinol i gael gafael ar y wybodaeth, y syniadau, y cyngor a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i wneud gwell dyfodol iddynt eu hunain. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnwys yr iaith Gymraeg fel ffactor wrth asesu patrwm daearyddol cyffredinol cymorth i ffermio yng Nghymru.

3.22 Dau gynllun lleol, ond pwysig y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu datblygu i helpu i gynnal ymarferoldeb cymunedau bach ledled Cymru yw'r **Cynllun Siopau Gwledig** (£1.5 miliwn rhwng 2002-05), a fydd yn amddiffyn siopau a busnesau eraill sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau gwledig, a'r **Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post** (£2 miliwn rhwng 2003 a 2005), a fydd yn datblygu swyddogaeth swyddfeydd post mewn rhannau difreintiedig a/neu anghysbell o Gymru a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

3.23 Prosiect arall a fydd yn anelu at y nod o fynd i'r afael ag adfywio cymunedol tra'n rhoi sylw arbennig i'r effaith ar yr iaith Gymraeg yw **Arsyllfa Wledig Cymru**, sy'n cael ei sefydlu gan Lywodraeth y Cynulliad (**yn costio £0.6 miliwn rhwng 2003 a 2005**) i wella dyfnder, cwmpas ac ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael ar faterion gwledig. Bydd yr iaith Gymraeg yn un o'r factorau a fydd yn treiddio trwy weithgareddau'r Arsyllfa a'r cyngor a gynigir ganddo.

Pontio'r rhaniad digidol

3.24 Mae Llywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau yn cyflawni gwaith pwysig wrth bontio'r 'rhaniad digidol' a fydd hefyd yn dod â manteision i gymunedau ledled Cymru ac mae anghenion siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg yn cael eu hystyried:

- Mae **strategaeth Cymru Ar-lein** Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys ymrwymadau allweddol i ddefnyddio TGCh (technoleg gwybodaeth a chyfathrebu) i wella cymunedau, eu diwylliant a'u hieithoedd, hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a helpu i atal y rhaniad digidol a

chodi statws yr iaith Gymraeg mewn perthynas â TGCh, cefnogi twf parhaus yr iaith Gymraeg a helpu i leihau eithrio digidol oherwydd iaith. Rhoddwyd arian tuag at ddarparu canolfannau dysgu TGCh.

- Ymysg elfennau pwysig o fewn Cymru Ar-lein sy'n canolbwyntio ar y gymuned y mae **Cynllun Rhwydwaith y Bobl, Cyfle Cymru a'r Canolfannau Cymorth TGCh, rhaglen e-gymunedau WDA a Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes** Llywodraeth y Cynulliad (sy'n golygu fod pob ysgol yng Nghymru bellach wedi'i chysylltu â'r Rhyngrwyd). Darparwyd arian hefyd i hyfforddi athrawon i ddefnyddio'r dechnoleg newydd a chytunwyd ar gynlluniau ar gyfer cam cyntaf strwythur cefnogi athrawon trwy Gymru gyfan fel rhan o Strategaeth e-Ddysgu integredig.
- Trwy nifer o fentrau cysylltiedig, bu Llywodraeth y Cynulliad a'r WDA yn datblygu ac yn cyllido rhaglenni sy'n costio rhyw £115 miliwn, sydd â'r nod o wella mynediad i **wasanaethau a thechnolegau band eang** i'w defnyddio gan unigolion, busnesau presennol a darpar-fusnesau a chymunedau ledled Cymru. Bydd datblygu band eang yn gymorth uniongyrchol i'r iaith Gymraeg trwy ddarparu mynediad i wasanaethau a chynghor yn Gymraeg, a hwyluso dysgu'r Gymraeg o bell trwy'r Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes.

Strategaethau adleoli

3.25 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu presenoldeb y tu allan i dde ddwyrain Cymru. Cynhaliwyd adolygiad a bydd rhaglen adleoli yn cael ei llunio a'i chyhoeddi cyn bo hir. Ar hyn o bryd mae rhyw 75% o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio yng Nghaerdydd. Bydd y strategaeth adleoli yn cael ei gweithredu dros nifer o flynyddoedd, ond bydd y symud mawr cyntaf, a gynlluniwyd ar gyfer Merthyr Tudful, yn digwydd erbyn diwedd 2004. Sefydlir dwy swyddfa fawr newydd arall, y naill yng Nghanolbarth/Gorllewin Cymru a'r llall yng Ngogledd Cymru, rhwng 2005 a 2007. Yn y cyfamser, mae'n debygol y bydd nifer o symudiadau llai neu bydd swyddi cwbl newydd gyda'r Cynulliad yn cael eu lleoli y tu allan i Gaerdydd. Mae'n debyg y bydd ardaloedd Cymraeg eu hiaith ymysg y rhai fydd yn elwa. Mae'r ymrwymiad i ddatblygu presenoldeb rhanbarthol hefyd yn ymestyn i Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBau). Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r gwahanol gyrrff i nodi cynigion ar gyfer swyddfeydd newydd neu i adeoli y tu allan i dde ddwyrain Cymru.

3.26 Bydd dwy fantais i symud staff Llywodraeth y Cynulliad a'u dyletswyddau i rannau eraill o Gymru – bydd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i gysylltu'n well â phobl Cymru a bydd yn dod â swyddi a buddsoddiad i economïau lleol yr ardaloedd lle caiff y swyddfeydd newydd eu hagog, gan gyfrannu at ein nod o ddatblygu cymunedau cryf cynaliadwy ledled Cymru. Wrth adleoli swyddi, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sensitif i wead ieithyddol y cymunedau hynny lle caiff swyddi newydd eu creu.

Camau Gweithredu

Disgrifiad	Pwrpas	Corff Arwain
Cymunedau yn Gyntaf	Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru	Llyw. y Cynulliad a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf
Pecyn cymorth adfywio cymunedau	cymysgedd o gefnogaeth refeniw a chyfalaf i hyrwyddo adfywio dan arweiniad y gymuned	WDA
Fframweithiau adfywio is-ranbarthol	Darparu cyd-destun is-ranbarthol ar gyfer datblygu polisiau economaidd a chymdeithasol	Llyw. y Cynulliad/awdurdodau lleol/ASPBau
Gweithredu Cymunedau Gwledig	Hyrwyddo adfywio a datblygu cefn gwlad mewn modd integredig	Llyw. y Cynulliad/WDA
Cynllun Datblygu Gwledig	Hyrwyddo adfywio, twristiaeth a chrefftau mewn ardaloedd penodol yng nghefn gwlad	Llyw. y Cynulliad/WDA
LEADER+	Hyrwyddo datblygiad gwledig arloesol	Llyw. y Cynulliad / WEFO/ WDA
Ffermio ar gyfer y Dyfodol (<i>Cyswllt Ffermio</i>)	Helpu amaethyddiaeth yng Nghymru i addasu fel bod cymaint o ffermydd teuluol â phosib yn goroesi, gan bwysleisio dimensiwn cymdeithasol cynaliadwyedd	Llyw. y Cynulliad
Cynllun Siopau Gwledig	Cymorth i wasanaethau manwerthu cefn gwlad a helpu i gynnal cymunedau	Llyw. y Cynulliad/WDA
Cronfa Datblygu'r Swyddfeydd Post	Cynllun grant i gynnal a datblygu swyddfeydd post mewn cymunedau difreintiedig a/neu anghysbell ledled Cymru	Llyw. y Cynulliad
Arsyllfa Wledig Cymru	Helpu i wella dyfnder, amrediad ac ansawdd y dadansoddiad o faterion gwledig ac ategu / cefnogi Partneriaeth Wledig Cymru	Llyw. y Cynulliad/ yr Arsyllfa
Cymru Ar-lein	i. mentrau i helpu i gau'r rhaniad digidol mewn busnesau, ysgolion, colegau a chymunedau yng nghefn gwlad Cymru ii. ymestyn mynediad band eang ar draws Cymru	Llyw. y Cynulliad / ynghyd â chyrrff sector cyhoeddus a sector preifat Llyw. y Cynulliad
Strategaethau adleoli	Llywodraeth y Cynulliad a'r ASPBau i ddatblygu presenoldeb y tu allan i dde ddwyrain Cymru	Llyw. y Cynulliad / ASPBau

(c) Yr iaith Gymraeg fel rhan o wead y gymuned

3.27 O fewn cwmpas ei strategaethau datblygu economaidd ac adfywio cymunedol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal nifer o fentrau sy'n cydnabod yn ddiamwys bwysigrwydd y Gymraeg mewn rhai cymunedau penodol. Mae'r mentrau hyn yn sail i nodau economaidd a chymdeithasol y rhaglenni ehangach, ond mae awydd i gynyddu'r defnydd a'r ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r mentrau hyn yn cael eu llunio a'u gweithredu.

Mentrau Cymunedol

3.28 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cymorth ychwanegol i **fentrau iaith**, yr asiantaethau cymunedol hynny, ac mae 23 ohonynt yng Nghymru bellach, sydd â'r gwaith o ymestyn ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu cymdeithasol ac o fewn busnesau a sefydliadau yn y gymuned. Prif gryfder y mentrau iaith yw eu potensial i godi proffil y Gymraeg yn lleol, a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd trwy gychwyn gweithgareddau newydd a chyd-drefnu rhai sydd eisoes mewn bod. Nid oes un model ar gyfer menter iaith – mae pob un yn adlewyrchu ei hamgylchiadau lleol ac yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac anghenion ieithyddol ei chymuned. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan fentrau iaith yn cynnwys:

- cyngor a chymorth mewn perthynas â defnyddio'r iaith, i gyrrff cyhoeddus, preifat, busnes a gwirfoddol
- sicrhau bod pobl, yn arbennig plant a phobl ifanc, yn cael cyfle i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg
- datblygu prosiectau ar gyfer twristiaid, pobl sy'n symud i'r ardal a phobl sy'n dysgu'r iaith
- darparu gwybodaeth ac adnoddau, megis offer cyfieithu, neu wybodaeth am wersi Gymraeg yn yr ardal.

3.29 Bydd y cymorth ychwanegol yn caniatáu i fentrau sydd eisoes yn bodoli i ddatblygu ac ehangu eu cysylltiad ag amrywiaeth o fentrau cymunedol, gan godi proffil materion Cymraeg o fewn y mentrau hynny. Sianelir y cymorth i'r mentrau iaith trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn defnyddio peth o'r arian i ddatblygu gwefan a cysylltiadau rhwydweithio eraill i alluogi'r mentrau iaith i gyfnewid syniadau ac arferion gorau.

3.30 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cymorth ychwanegol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w alluogi i gynyddu nifer y **Cynlluniau Gweithredu Iaith**. Mentrau arloesol yw'r rhain a fydd yn dwyn ynghyd y strwythurau datblygu economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol lleol mewn cymunedau lle mae'r defnydd o'r iaith yn newid yn sylweddol a phobl ifanc yn ei defnyddio lai a llai. Y nod yw dyfeisio cynlluniau lleol sy'n defnyddio'r strwythurau lleol i gynyddu ac annog ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, ei hamlygrwydd a'r defnydd ohoni mewn sefyllfaoedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol lleol. Ni fydd yna un dull gweithredu arbennig – mater i'r partneriaid lleol fydd penderfynu sut y dylai cynlluniau gweithredu lleol adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol.

Cynllunio

3.31 Mae **polisi cynllunio cenedlaethol** Llywodraeth y Cynulliad yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i gydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ar lefel gymunedol. Mae'r polisi yn mynegi'r egwyddor fod ffurfio polisi cynllunio lleol ac felly, benderfyniadau cynllunio dilynol yn sensitif i allu gwahanol ardaloedd a chymunedau i ymdopi â datblygiad heb erydu sefyllfa'r iaith Gymraeg.

- Yr oedd cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y Cynulliad 'Polisi Cynllunio Cymru', sy'n ategu **Nodyn Cyngor Technegol 20 'Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio'**, yn dweud y dylai'r system gynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg ac wrth wneud hynny gall gyfrannu at ei lles. Dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol, ac mewn achosion o'r fath mae'n briodol rhoi ystyriaeth i hyn wrth ffurfio polisiau defnydd tir. Yn y cyfiawnhad rhesymegol dros eu cynlluniau datblygu unedol dylai pob awdurdod cynllunio lleol gynnwys datganiad yn nodi'r ffordd y rhoddwyd ystyriaeth i anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg wrth baratoi'r cynllun, a'r berthynas rhwng unrhyw bolisiau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a pholisiau eraill y cynllun. Caiff y gofyniad polisi hwn ei fonitro gan y Cynulliad trwy graffu ar gynlluniau datblygu unedol newydd. Felly, dylai awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu yn unol â'r cynllun datblygu mabwysiedig, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.
- Dywed polisi Llywodraeth y Cynulliad y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddarparu ar gyfer cyflwyno datblygiadau tai'n raddol a'u dosbarthu'n eang er mwyn gwneud yn siŵr fod gwahanol ardaloedd a chymunedau yn gallu ymdopi â datblygiad heb erydu sefyllfa'r iaith.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i adolygu effeithiolrwydd y ffordd y gweithredir ei pholisiau cynllunio mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd rhan mewn **Astudiaeth Effaith Ieithyddol**, prosiect ymchwil ar y cyd (a sefydlwyd gan yr awdurdodau cynllunio lleol) gyda'r nod o ddod o hyd i ddulliau ymarferol o weithredu polisi cynllunio cenedlaethol a llunio cyngor ar yr iaith Gymraeg. Mae'r partneriaid yn yr astudiaeth yn cynnwys tri ar ddeg o awdurdodau cyhoeddus, dau awdurdod Parc Cenedlaethol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr astudiaeth yn arwain at nifer o ddeilliannau a ddylai helpu i lywio polisi yn ystod pob cam o'r broses o lunio cynllun.
- Ni fydd polisiau cynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy sy'n ystyried materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, ynddynt eu hunain, yn cynnal y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu. Ond bydd cysylltu'r polisiau hyn (a pholisiau tai) â pholisiau datblygu

economaidd, diwylliannol ac addysgol sydd â'r un nod o sicrhau cymunedau cynaliadwy yn cryfhau rhagolygon y cymunedau a'r iaith yn fawr iawn. Bydd ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddod â materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i'r brif ffrwd yn sicrhau bod ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a'r ymateb iddynt yn elfennau pwysig o'r strategaeth gymunedol gydlynus.

3.32 Bydd **Cynllun Gofodol Cymru**, ymrwymiad a gynhwysir yng Nghynllun i Gymru a'r Cytundeb Partneriaeth, yn amlinellu mewn termau gofodol beth sy'n digwydd ymhle. Bydd yn ystyried rhyngweithio polisïau gwahanol mewn mannau penodol yn ogystal â swyddogaeth lleoedd, gan amlinellu fframwaith strategol i lywio datblygiad yn y dyfodol. Yn hyn o beth mae'n ehangach na chynllunio defnydd tir traddodiadol a bydd yn hyrwyddo ac yn sail i ystyriaeth o effaith strategaethau gofodol ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Camau Gweithredu

Disgrifiad	Pwrpas	Corff Arwain
Cymorth i Fentrau Iaith	Cynyddu'r defnydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o'r iaith ar lefel gymunedol.	Llyw. y Cynulliad / Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cynlluniau Gweithredu Iaith	Cydlynu ymdrechion ar draws nifer o sectorau ac amrediad o gyrrff ym mhob lleoliad i gynyddu'r defnydd o'r iaith a'i gwneud yn fwy amlwg	Llyw. y Cynulliad / Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Monitro Cynlluniau Datblygu Unedol	Sicrhau bod y polisi cynllunio lleol yn gyson â pholisïau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer hybu a chefnogi'r iaith Gymraeg	Llyw. y Cynulliad
Astudiaeth Effaith Ieithyddol	Llunio offer i helpu i weithredu polisi cynllunio cenedlaethol a chyngor sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg	Awdurdodau lleol/Bwrdd yr Iaith/ Awdurdodau Parc Cenedlaethol/ Llyw. y Cynulliad
Cynllun Gofodol Cymru	Darparu mecanwaith ar gyfer ystyried rhyngweithio ac effaith amryw o bolisïau Llywodraeth y Cynulliad	Llyw. y Cynulliad

(ch) Symudiadau Poblogaeth

3.33 Mae Llywodraeth y Cynulliad ym ymwybodol fod newidiadau poblogaeth o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn un o'r ffactorau sy'n tanseilio safle'r iaith yn y cymunedau hynny. Yn y degawdau diweddar, y duedd ddemograffig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith oedd fod pobl ifanc yn gadael, a'r unig rai oedd yn debygol o gymryd eu lle, oedd pobl hŷn, di-Gymraeg. Caiff y tueddiadau hyn effaith andwyol ar gydbwysedd cymdeithasol ac economaidd y gymuned ac mae goblygiadau cysylltiedig

difrifol i'r iaith Gymraeg, gan fod pobl ifanc yn mynd â dyfodol yr iaith yn yr ardaloedd hynny gyda hwy.

3.34 Nod polisiau economaidd ac adfywio cymunedol Llywodraeth y Cynulliad yw creu'r cyfleoedd a fyddai'n galluogi'r rhai hynny sy'n meddwl gadael i aros pe dymument. Ond rydym hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau uniongyrchol sy'n deillio o symudiadau poblogaeth trwy gyfrwng cyfres o fentrau a pholisiau a gynlluniwyd i'w gwneud yn haws i'r rhai sydd wedi gadael ddychwelyd, annog newydd-ddyfodiaid i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg a delio â rhai o'r problemau sy'n gwneud i bobl adael yn y lle cyntaf.

Dychwelyd adref

3.35 Mae allfudiad pobl ifanc, i chwilio am swyddi a chyfleoedd cymdeithasol, yn broblem arbennig yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

- Wrth i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu ei strategaethau adfywio cymunedol, byddwn yn disgwyl i Awdurdod Datblygu Cymru barhau i ddatblygu a hyrwyddo ei **prosiect Llwybro**, gwasanaeth rhynggrwyd sy'n ceisio annog pobl ifanc sydd wedi gadael cefn gwlad Cymru i ddychwelyd adref trwy ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a diweddar am swyddi newydd, cyfleoedd buddsoddi ac astudiaethau achos cadarnhaol yng nghefn gwlad Cymru.
- Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad **Astudiaeth Cymunedau Cytbwys o ran Oed**, gan adeiladu ar waith y prosiect Llwybro, i edrych ar y gymuned wledig yn ei chyfanrwydd ac ar bobl ar wahanol gyfnodau yn eu bywydau o fewn y cymunedau. Bydd yr adroddiad yn cynnwys cynllun gweithredu i greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc aros yng Nghymru neu ddychwelyd yma. Targedir siaradwyr Cymraeg ac amgylchiadau cymunedau Cymraeg eu hiaith yn yr astudiaeth.

Tai

3.36 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol fod diffyg **tai y gellir eu fforddio** mewn ardaloedd gwledig yn un o'r rhesymau tybiedig pam fod pobl ifanc yn gadael cefn gwlad Cymru a'r ardaloedd Cymraeg. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad nifer o fesurau a gynlluniwyd i hwyluso mynediad i dai a sicrhau bod cymunedau yn gynaliadwy.

- Cynyddodd Llywodraeth y Cynulliad uchafswm y benthychiad ecwiti sydd ar gael dan y cynllun perchnogaeth tai cost isel, sef y **Cynllun Prynu Cartref (Homebuy)**, i 50% mewn ardaloedd gwledig lle mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn byw. Gall awdurdodau lleol hefyd gytuno ar feini prawf byw neu weithio'n lleol i ymgeiswyr gyda landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cymryd rhan (e.e. Cymdeithasau Tai) a'r meini prawf hynny'n cyd-fynd ag amgylchiadau lleol. Mae gweithrediad y Cynllun Prynu Cartref yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn effeithiol wrth alluogi pobl sydd angen tai i'w prynu ar gost isel. Mae'n debyg y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2003.

- Mae rhyw £56.4 miliwn yn cael ei ddarparu ar ffurf **Grant Tai Cymdeithasol** i helpu i ddarparu tai y gellir eu fforddio yn 2003-04. Awdurdodau lleol, fel darparwyr tai strategol, sy'n gyfrifol am asesu blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad. Ym mlwyddyn ariannol 2001-02, penderfynodd awdurdodau lleol y dylid defnyddio ychydig yn llai na £3 miliwn o'r Grant Tai Cymdeithasol, a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, ar gyfer y Cynllun Prynu Cartref mewn ardaloedd gwledig. Y dyraniad ar gyfer 2002-03 yw £4.3 miliwn, a disgwylir iddo greu oddeutu 230 benthyciad Homebuy mewn ardaloedd gwledig.
- Yng Ngorffennaf 2002, cododd Llywodraeth y Cynulliad yr **uchafswm pris prynu** ar gyfer tai a brynir o dan y Cynllun Prynu Cartref o 10%. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon ystyried ceisiadau uwchlaw'r terfynau a gyhoeddwyd ar sail eu teilyngdod. Gall y Cynulliad hefyd ddiystyru'r terfynau os gellir dangos nad oes tai addas ar gael o fewn y terfynau mewn ardaloedd lle byddai'n rhesymol disgwyl i'r ymgeisydd brynu tŷ. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog awdurdodau lleol i gynnal **Aseidiadau Anghenion Tai** trwy ddarparu 50% o'r arian tuag at y costau. Dylai'r aseidiadau fod o gymorth mawr wrth fesur y galw lleol am dai y gellir eu fforddio. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno Gorchymyn Cynulliad yn ystod hydref 2002 a fydd yn ymestyn nifer yr ardaloedd gwledig lle ceir cyfyngiadau ar werthiant o dan yr Hawl i Gaffael ac ar ailwerthu o dan yr Hawl i Brynu er mwyn diogelu mynediad pobl leol at dai rhad.

3.37 Mae ymateb Llywodraeth y Cynulliad, a gyhoeddwyd ganddi yn ddiweddar i'r ymchwil a gomisiynodd i '**Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Cynllunio Defnydd Tir**', yn disgrifio sut mae'r argymhellion yn yr adroddiad ynglŷn â'r system gynllunio a'r cyflenwad o dai y gellir eu fforddio mewn ardaloedd gwledig yn cael eu datblygu. Mae nifer o'r argymhellion eisoes ar waith neu dan ystyriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys adolygu'r canllawiau ar faterion cynllunio a thai, datblygu polisi cynllunio, gwella'r dull o gasglu data ar ail gartrefi a thai y gellir eu fforddio ac ymchwil bellach ar amrediad eang o bynciau. Mae angen ystyried yr ymchwil hefyd yng ngoleuni rhaglen fwy cynhwysfawr sy'n cael ei chynnal gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ymdrin â'r holl gymhlethdod o faterion sy'n gysylltiedig â deall sut i gynnal (a chreu) cymunedau gwledig hyfyw.

3.38 Mae'r ddogfen 'ymateb' ar gael ar wefan y Cynulliad <http://www.cymru.gov.uk/index.htm> - Mynegai i'r Pynciau / Cynllunio / Rhestr Cyhoeddiadau / Ymchwil Cynllunio).

Pecynnau Croeso

3.39 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i greu mwy o gyfleoedd i newydd-ddyfodiaid i ardaloedd Cymraeg eu hiaith ac oedolion di-Gymraeg i ddysgu'r iaith, fel y gallant gymryd rhan lawn ym mhob agwedd o fywyd eu cymuned newydd a chyfrannu at gynnal a chryfhau un o nodweddion mwyaf

hynod y gymuned honno. Gyda hynny mewn golwg byddwn yn gofyn i ELWa adolygu'r ffordd y caiff **cyfleoedd dysgu i oedolion** eu cynllunio a'u cyflwyno, er mwyn dod â Chymraeg i Oedolion i'r brif ffrwd wrth gynllunio, codi ei broffil a gwella safonau. Darparodd Llywodraeth y Cynulliad gymorth grant unwaith ac am byth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2001-02 i sefydlu gwefan a deunydd cyhoeddusrwydd cysylltiedig ar gyfer prosiect peilot "**Pecynnau Croeso**". Rhoddwyd y pecynnau i bobl oedd yn symud i gymunedau Cymraeg yng Ngwynedd ac ardal Dinbych / Conwy i gyflwyno proffil ieithyddol a threftadaeth yr ardal iddynt a rhoi manylion iddynt ynghylch sut i ddysgu a pharchu'r iaith. Mae effeithiolrwydd y pecynnau a ddosbarthwyd â llaw yn cael ei werthuso, gan ymgynghori â'r gwerthwyr tai oedd yn cymryd rhan, rhai o'r rhai hynny a dderbyniodd y gwasanaeth a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

3.40 Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd yn bwrw ymlaen â'i wefan, a fydd yn gyswllt â gwerthwyr tai ledled Cymru ac yn darparu manylion am a chysylltiadau ag awdurdodau lleol, mentrau iaith a'r ystod o sefydliadau cymunedol sy'n weithgar dros y Gymraeg. Bwriad y wefan yw hybu ymwybyddiaeth o gyfleon cymdeithasol a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd yn ceisio annog newydd-ddyfodiaid i ddysgu'r iaith a chymryd rhan yn y gymuned Gymraeg leol. Bydd gwybodaeth ar gael am:

- addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg
- ble mae cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar gael;
- digwyddiadau yn y gymuned a drefnir gan fentrau iaith, cylchoedd meithrin, Urdd Gobaith Cymru ac eraill;
- canolfannau i hwyr-ddyfodiaid

Bydd y wefan felly yn ategu ac yn helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r amrywiaeth o wasanaethau a mentrau lleol a chymunedol sydd ar gael i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.

Camau Gweithredu

Disgrifiad	Pwrpas	Corff Arwain
Llwybro	Monitro symudiadau unigolion a addysgwyd yn y Canolbarth a rhoi gwybod iddynt am swyddi sydd ar gael yn eu hardaloedd genedigol.	WDA
Astudiaeth Cymunedau Cytbwys o ran Oed	Ymchwil yn arwain at Gynllun Gweithredu i greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc i aros yng nghefn gwlad Cymru neu ddychwelyd yno	Llyw. y Cynulliad
Cynllun Prynu Cartref	Adolygu gweithrediad y cynllun i sicrhau ei fod yn galluogi pobl sydd angen tai i ddod yn berchnogion tai am bris isel	Llyw. y Cynulliad
Strategaethau Tai Lleol	Llunio atebion effeithiol i broblemau tai lleol trwy gynnwys pob rhan o'r gymuned yn y gwaith o gytuno ar strategaeth dai leol	Llyw. y Cynulliad / awdurdodau lleol

Gorchymyn y Cynulliad yn Cyfyngu ar yr Hawl i Brynu/Hawl i Gaffael mewn ardaloedd gwledig	Cynyddu nifer yr ardaloedd gwledig lle ceir cyfyngiadau ar werthiant o dan yr Hawl i Gaffael ac ar ail-werthu o dan yr Hawl i Brynu	Llyw. y Cynulliad
Ymchwil ar ail gartrefi	Asesu effaith gymdeithasol ac economaidd ail gartrefi mewn cymunedau ledled Cymru	Llyw. y Cynulliad
Gwefan y Pecyn Croeso	Rhoi gwybodaeth am y gymuned a'r diwylliant i bobl sy'n symud i fyw i Gymru a'u hannog i barchu'r iaith a'r diwylliant a mynd ati i ddysgu'r iaith	Bwrdd yr Iaith Gymraeg

4. Yr Unigolyn a Hawliau Iaith

4.1 Bydd y trydydd llinyn yn ein strategaeth yn canolbwyntio ar **hawl** yr unigolyn i ddefnyddio'r iaith o'u dewis a **chyfrifoldeb** sefydliadau o fewn cymdeithas Cymru i gydnabod a hyrwyddo hawl yr unigolyn i wneud hyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i'r dasg o wneud Cymru yn wlad gwbl ddwyieithog a bydd ein polisiau yn parhau i annog unigolion i ddysgu Cymraeg a rhoi pŵer iddynt i ddefnyddio'r iaith. Ond ni fydd yr iaith yn ffynnu ar sail cefnogaeth gan sefydliadau yn unig - ni waeth pa mor gryf yw'r gefnogaeth a'r ymrwymiad hwnnw. Gall Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid weithio i greu'r amodau iawn, ond rhaid i unigolion eu hunain sylweddoli fod ganddynt hwythau hefyd gyfrifoldeb tuag at yr iaith trwy ei throsglwyddo i'w plant a thrwy gael yr hyder i'w defnyddio yn yr amrywiaeth mwyaf posibl o sefyllfaoedd cymdeithasol a busnes.

4.2 Bwrddwn polisiau Llywodraeth y Cynulliad yn y maes hwn fydd:

- annog unigolion i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg;
- ymestyn mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn y sectorau blynyddoedd cynnar ac ar ôl 16;
- rhoi'r grym i unigolion i wneud dewis go iawn ynghylch yr iaith, neu'r ieithoedd, y dymunant fyw eu bywydau trwyddynt;
- bod gan bob person ifanc yr hawl i ystod o wasanaethau cefnogi yn yr iaith o'u dewis;
- gwneud ymdrech i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.

Caffael iaith, addysg a dysgu gydol oes

4.3 Ni ddylem anghofio pa mor bell y mae'r system addysg wedi datblygu eisoes. Bellach mae'r Gymraeg yn bwnc gorfodol i bron pob disgybl rhwng 5 ac 16 oed. Yn 2001-2002 golygai hynny fod dros 463,000 o ddisgyblion yn cael gwersi Cymraeg. Ym 1996/97 roedd dros 20% o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn gyhoeddus yn cael dim gwersi Cymraeg o gwbl; yn 2001/02 roedd hyn wedi gostwng i 1% gan roi sail gadarnach nag erioed i ddyfodol y Gymraeg. Mae 18% o blant blynyddoedd cynnar eisoes mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac mae polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ymestyn lleoedd blynyddoedd cynnar wedi cael ei sefydlu gydag ymrwymiad cadarn i gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae cynrychiolwyr o Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Banel Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth y Cynulliad. Mae mwy o addysg cyfrwng Cymraeg ar gael mewn blynyddoedd diweddar, ac mae nifer o Awdurdodau Addysg Lleol wedi agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd. Ers 1990 agorwyd 14 o ysgolion cynradd a 3 o ysgolion uwchradd newydd, a bydd ysgol uwchradd arall yn agor yn Abertawe ym mis Medi 2003. At y dyfodol, cyhoeddwyd cynigion ar gyfer tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yng Nghaerffili ac ehangu nifer o ysgolion yn Rhondda Cynon Taf; ac mae o leiaf dri awdurdod arall yn ystyried o ddifrif sefydlu ysgolion cynradd neu uwchradd ychwanegol. Erbyn hyn mae 20% o ddisgyblion cynradd mewn dosbarthiadau lle cânt eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg am ran o'r diwrnod neu'r diwrnod cyfan. Yn y sector uwchradd mae nifer yr ysgolion a

ddynodwyd fel rhai cyfrwng Cymraeg wedi codi o 44 i 53 ers 1992 ac mae 14% o ddisgyblion yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf o'u cymharu â 12% ddegawd yn ôl. Mae ystod o fesurau eisoes yn eu lle i helpu i wella'r cyflenwad o athrawon Cymraeg gan gynnwys grantiau cymhelliant i bob myfyriwr graddedig a mwy o gymhellion i raddedigion cymwys mewn pynciau prinder wrth iddynt dderbyn swyddi. Hefyd rydym wedi cyflwyno Taliad Atodol Cymhelliant Cymraeg i fyfyrwyr sy'n gwneud hyfforddiant athrawon cychwynnol uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg ac sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn y Gymraeg. Mae nawdd yn awr ar gael trwy raglen Grant Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST) sy'n helpu athrawon i newid i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd codi safonau dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob Cyfnod Allweddol.

4.4 Trwy ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) , rydym yn cefnogi ystod lawn o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg – TGA, TGAU, GNVQau, Sgiliau Allweddol. Mewn blynyddoedd diweddar ymestynnwyd hyn i gymwysterau galwedigaethol hefyd trwy ACCAC ac ELWa - Cyngor Cenedlaethol. Mae darpariaeth ieithyddol briodol yn cael ei gwneud ar gyfer ein cymhwyster Baccalaureate Cymreig newydd. Bydd myfyrwyr yn gallu ei sefyll trwy gyfrwng y Gymraeg, trwy gyfrwng y Saesneg neu yn y ddwy iaith. Mae deunyddiau o safon uchel i'r ystafell ddosbarth i gefnogi addysgu Cymraeg fel pwnc a phynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg, a deunyddiau dwyieithog i gefnogi agweddau Cymru-benodol o'r cwricwlwm (y Cwricwlwm Cymreig) yn cael eu comisiynu trwy ACCAC. Mae dros 1,100 o deitlau wedi cael eu cyhoeddi ers 1995. Mae Côt Ymarfer Addysg Anghenion Arbennig diwygiedig Cymru (AAA) yn cwmpasu materion yn ymwneud ag addysgu a chefnogaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion AAA. Mae Grŵp Ymgynghorol Cymru ar AAA yn parhau i gadw golwg fanwl ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar therapiau lleferydd ac iaith.

4.5 Mae Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol y Cyngor Cenedlaethol - **ELWa** – yn cynnwys cynigion i gwrdd â'r anghenion a nodwyd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16, Cymraeg i Oedolion, Cymraeg yn y gweithle, a chyfleon hyfforddi sgiliau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cynllun Corfforaethol 2002-2005 yn enwi dwyieithrwydd fel un o'i 4 thema drawsbynciol. Mae *Learndirect* yn darparu gwybodaeth ddyddu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y wefan *cyswllt dysgu learndirect*. Gyda golwg ar ddiddordebau pobl ifanc, yn fwyaf diweddar, mae'r cyhoeddiad dwyieithog 'Agor y Ddau Ddrws' a noddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygu gwaith ieuenctid dwyieithog. Cafwyd ymateb brwd i ddigwyddiadau ymgynghori i gynllunio ffordd ymlaen i'r gwasanaeth ieuenctid ar y mater hwn ac mae'n llinyn cynyddol bwysig yng nghyd-destun *Ymestyn Hawliau*.

4.6 Mae swyddogaeth hollbwysig gan addysg a hyfforddiant mewn gwireddu ein dyheadau ar gyfer Cymru ddwyieithog. Os ydynt am fod yn llwyddiannus rhaid mynd i'r afael â materion caffael iaith mor gynnar â phosibl – a chyn cychwyn addysg ffurfiol. Ni allwn ddibynnu ar yr 20% o'r boblogaeth oedolion bresennol sy'n siarad Cymraeg yn rhugl i ddarparu ar gyfer anghenion y system addysg yn Gymraeg. Ni allwn chwaith greu newid sylweddol yn y

ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar bob lefel mewn byr o dro. Y meysydd pwysicaf i ganolbwyntio arnynt felly yw darparu ymarferwyr ar bob lefel ac ehangu mynediad i'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn enwedig. Mae llawer o'r camau angenrheidiol ar y gweill ond wrth lunio'r mesurau a amlinellir isod rydym wedi cymryd ac yn dal i gymryd adolygiad polisi y Pwyllgor Addysg a Dysgu gydol Oes, *Ein Hiaith: Ei Dyfodol* i ystyriaeth lawn.

Blynyddoedd Cynnar

4.7 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi pwys mawr ar ddatblygu darpariaeth yn Gymraeg ar gyfer y **blynyddoedd cynnar** (0-5 oed). Mae'n fantais enfawr os gall plant ifanc ddysgu siarad Cymraeg yn naturiol o fewn y teulu a hefyd wrth gwrs os yw eu rhieni yn siarad y ddwy iaith gyda nhw o'r cychwyn cyntaf. I blant gyda rhieni di-Gymraeg, mae addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn ddull arbennig o effeithiol o'u galluogi i ddod yn ddwyieithog. Ein blaenoriaethau ar gyfer y grŵp oedran hwn fydd meithrin trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu a ymestyn argaeledd grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg.

4.8 Edrychwn ar **drosglwyddo'r iaith yn y teulu** fel un o elfennau allweddol ein strategaeth iaith. Mae cymaint o rieni sydd yn rhugl eu Cymraeg nad ydynt yn trosglwyddo'r iaith i'w plant. Mae gwrth-ddweud rhyfedd yn y fan hon, gan fod ymchwil yn dangos bod gwerthfawrogi cynyddol ar fanteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd dwyieithrwydd. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi datblygu prosiect arloesol llwyddiannus i hybu a chefnogi Trosglwyddo Iaith yn y Teulu a elwir yn awr yn **Twf**. Edrychwn yn awr at Fwrdd yr Iaith i adeiladu ar ei waith arloesol ac rydym wedi darparu arian ychwanegol o dros £1 miliwn dros y dair blynedd nesaf i gyflogi mwy o swyddogion maes i'w droi yn brosiect cenedlaethol. Darperir cyllid i gynhyrchu deunydd hyrwyddo ac i werthuso effaith y prosiect.

4.9 Y nod tymor hir ar gyfer ein **darpariaeth blynyddoedd cynnar** yw cyrraedd sefyllfa ble mae llawer iawn yn fwy o blant dan 5 oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg a'r Saesneg i allu symud naill ai i ysgolion Cymraeg neu ysgolion sy'n gweithredu'n ddwyieithog. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn codi lefel y cyllid sy'n cael ei sianelu i'r Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) trwy Fwrdd yr Iaith. Bydd grant o £35,000 i MYM yn darparu ar gyfer penodi gweithiwr datblygu i hyrwyddo gwaith MYM ac i hybu ansawdd darpariaeth blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn annog mwy o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg i agor ar draws Cymru a bydd yn caniatáu i Fwrdd yr Iaith wella ystod y gwasanaethau cefnogi canolog a'r wybodaeth y gall eu cynnig.

4.10 Bydd ein hadolygiad arfaethedig o ddarpariaeth fydd yn cwmpasu patrwm, natur a galw yn darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gobeithio sicrhau cynnydd graddol yng nghyfran y plant sydd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Y flaenoriaeth gyntaf fydd gweithio ar hyfforddi ymarferwyr a chodi safonau ansawdd i ganiatáu mwy o fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg blynyddoedd cynnar. Dyma'r cam cyntaf hanfodol tuag at wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn sylweddol ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Byddwn yn darparu £7 miliwn ychwanegol rhwng 2004 a 2006 er mwyn darparu hyfforddiant i dros 150 o ymarferwyr.

Ystod oedran 5 i 16

4.11 Mae **addysgu Cymraeg fel pwnc** wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob disgybl o oed ysgol statudol fel bod yr holl blant mewn ysgolion a gynhelir, pa un a ydynt yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith yn cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog. Mae'r polisi hwn wedi hen ymsefydlu, ond mae angen edrych yn fanylach ar rai materion. Ymddengys yn enwedig fod llithro o iaith gyntaf i ail iaith yn digwydd wrth i blant drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Gallai ddilyn fod disgybl yn sefyll arholiad allanol nad yw'n addas yn addysgol nac yn ieithyddol. Mae angen ymchwil bellach ar hyn.

4.12 Yn ogystal mae angen gwneud mwy i godi safonau ym mhrofiad disgyblion o Gymraeg fel ail iaith. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y casgliad, yn wyneb y ffaith bod gafael dysgwyr ar yr iaith erbyn 14 oed yn siomedig, y dylai'r Gymraeg fod yn bwnc dewisol yng Nghyfnod Allweddol 4. I'r gwrthwyneb credwn fod hyn yn ddadl dros ddulliau mwy blaengar o ddysgu iaith. Yn erbyn y cefndir hwn, byddwn yn edrych yn ofalus ar ba gamau y gellir eu cymryd i fesur cynnydd disgyblion ar hyd y continwmm ieithyddol, gan gynnwys asesu deul.

4.13 Mae **addysg trwy gyfrwng y Gymraeg** wedi ehangu'n gyson mewn blynyddoedd diweddar a dymuna Llywodraeth y Cynulliad annog y duedd hon. Felly byddwn yn edrych eto ar yr arweiniad mewn perthynas â Chynllun Trefniadaeth Ysgolion AALLau i sicrhau gwell cydlynedd a chysondeb rhyngddynt a Chynlluniau Addysg Gymraeg. Trwy hyn sicheir fframwaith eglurach i awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

4.14 Mae'n amlwg ei bod yn hollbwysig bod digon o athrawon ar gael i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ar bob lefel. Mae CACC a'r cyfrifiad ysgolion yn rhoi gwybodaeth werthfawr ar recriwtio a chadw athrawon. Eto, mae'n annhebygol bod y pwll poblogaeth presennol sydd yn rhugl yn y ddwy iaith yn gallu darparu unrhyw dwf cynyddol mewn darpariaeth ddwyieithog. Felly bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno rhaglen beilot o **hyfforddiant iaith Gymraeg dwys i athrawon cymwys** drwy gynnig dysgu trwy drochiad mewn cyfnodau sabothol. Bydd y rhaglen yn cwmpasu bob lefel ond yn y lle cyntaf, canolbwyntir y gefnogaeth ar athrawon yn y blynyddoedd cynnar ac ar lefel gynradd. Yn ogystal, byddwn yn dyblu'r arian fydd ar gael drwy'r Atodiad Cymhelliant Cyfrwng Cymraeg i £230,000 y flwyddyn o 2005-06. Mae'r Atodiad ar gael i athrawon o dan hyfforddiant i'w hannog i wella eu cymhwysedd fel eu bod yn meddu ar y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.15 Erbyn hyn, hefyd, mae nifer o ysgolion cyfrwng Saesneg yn **cynnig rhai pynciau dethol trwy gyfrwng y Gymraeg**. Dymuna Llywodraeth y Cynulliad annog hyn oherwydd gall mwy o gyswllt â'r iaith yn y cyd-destunau hyn gael

effaith lesol ar afael plant ar y Gymraeg. Dim ond yn lleol y gellir penderfynu ar natur y datblygiadau hyn a pha mor gyflym y byddant yn digwydd. Bydd cefnogaeth i athrawon i wella eu sgiliau Cymraeg trwy gyfnodau sabothol neu hyfforddiant arall yn cyfrannu at ymestyn y dull hwn a byddwn yn darparu swm ychwanegol o hyd at £1 miliwn y flwyddyn o 2005-06 at y diben hwn. Bu'n anodd bob amser diffinio darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Ystyrir cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill ynglŷn ag i ba raddau y mae diffiniadau presennol yn ddigonol at ddibenion ystadegol ac eraill ac ynglŷn ag i ba raddau y gellid defnyddio diffiniadau o'r fath yn fwy eang.

4.16 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i bryderu mai **cymharol ychydig o bwytiau mynediad** sydd i addysg cyfrwng Cymraeg. Ar y cyfan, mae'n bosibl dewis naill ai yn 3 oed wrth fynd i addysg feithrin, neu'n 5 oed wrth gychwyn yn yr ysgol gynradd. Yn ymarferol, unwaith y bydd rhiant neu blentyn wedi dewis y sector cyfrwng Saesneg yn un o'r pwyntiau mynediad hyn prin iawn yw'r cyfleon yn y rhan fwyaf o ardaloedd AALI i newid i'r sector cyfrwng Cymraeg (neu i astudio rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliad cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog.) Gan ddefnyddio'r ddarpariaeth Ffrangeg craidd ddwys a geir yng Nghanada fel esiampl, rydym yn cynnig sefydlu prosiectau peilot a fydd yn rhoi cyfleon i ddisgyblion ym mlynnyddoedd olaf yr ysgol gynradd i astudio Cymraeg yn ddwys am gyfnod penodol (fel rhan o gwricwlwm cryno os oes angen). Dylai hyn alluogi llawer mwy o ddisgyblion i symud i'r sector cyfrwng Cymraeg neu i astudio mwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau eraill nag a fuasai'n bosibl fel arall.

4.17 Boed yng nghyd-destun addysgu Cymraeg fel pwnc neu addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yr angen yn parhau i ddatblygu **deunyddiau addas i'r ystafell ddosbarth** ac i ddarparu cyfleon i bobl ennill **cymwysterau** yn Gymraeg. Gwneir hyn mewn dwy ffordd: trwy raglen gomisiynu bresennol ACCAC, lle yr ydym yn darparu £400,000 ychwanegol y flwyddyn o 2004-05, a thrwy Grid Dysgu Cenedlaethol (NGfL) Cymru a fydd yn sicrhau bod amrywiaeth eang o ddeunyddiau electronig ar gael yn y ddwy iaith.

Dysgu ôl-16

4.18 Fel yr amlinellwyd yn ein strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru, *Ymgeisio yn Uwch*, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r prinder darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch ac yn wir mewn Addysg Bellach. Nid oes dim un ffordd syml i adeiladu ar y 3% o fyfyrwyr AU a gafodd rywfaint o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu gwaith gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) ar lefelau cyflenwad a galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn **addysg uwch**, y tueddiadau a ragwelir mewn galw a'r camau angenrheidiol i gymryd cyfrif o'r rhyngberthynas rhwng cyflenwad a chynyddu'r galw. Dim ond ar sail y dystiolaeth hon y gellir cynllunio lefelau darpariaeth a chefnogaeth yn iawn i'r dyfodol. Wrth wneud penderfyniadau ar bwytiau gweithredu sy'n deillio o *Ymgeisio yn Uwch*, byddwn yn ystyried buddsoddi mewn darpariaeth yn y dyfodol yng ngoleuni'r gwaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddi ymhellach i gynyddu

niferoedd yr athrawon AU sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gymaint â phosibl drwy hyfforddiant a chefnogaeth arall gan gynnwys **treialu cyfnodau sabothol dysgu Cymraeg i ymarferwyr**.

4.19 Datblygir addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer y **sector ôl-16 (ac eithrio addysg uwch)** o fewn y fframwaith strategol y mae Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru yn ei sefydlu trwy Dîm Dysgu Dwyieithog newydd. Bydd hyn yn cydnabod pwysigrwydd:

- Partneriaethau lleol wrth adnabod ac ymateb i anghenion lleol;
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o fanteision sgiliau dwyieithog ymysg dysgwyr;
- Recriwtio, hyfforddi ac ail-hyfforddi staff i addysgu'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector AB; a
- Datblygu TGCh i helpu i adnabod anghenion siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, galluogi dysgwyr i ennill budd o'r adnoddau sydd ar gael, marchnata darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg, a lledaenu arfer da.

4.20 Mae'r rhwydwaith fideo a sefydlwyd gan ELWa a'r Sectorau Addysg Bellach ac Uwch a'n buddsoddiad ni mewn cyfleuster band eang yn cynnig posibiliadau cyffrous ar gyfer dysgu o bell a allai'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau ardaloedd gwledig ac addysgu pynciau i niferoedd bach o fyfyrwyr. Rhaid i ni sicrhau, wrth i'r datblygiadau hyn ehangu mynediad i ddysgu, bod y cyfleon i ehangu addysgu a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn.

4.21 Datblygir dull cydlynus o ddarparu **Cymraeg i Oedolion**. Bydd y Cyngor Cenedlaethol yn adolygu'r gwaith cynllunio a chyflenwi, i ddwyn y gwaith i'r brif ffrwd gynllunio a chodi proffil Cymraeg i Oedolion a gwella safonau.

4.22 Mae Tîm Dwyieithrwydd y Cyngor Cenedlaethol yn bwriadu cydweithio â FENTO, Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Addysg Bellach, i lunio rhaglen hyfforddi ar gyfer tiwtoriaid iaith Gymraeg yn y sectorau Addysg Bellach a dysgu i oedolion. Bydd y rhaglen yn cael ei mabwysiadu gan sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr eraill. Byddwn yn buddsoddi £1 miliwn yn ychwanegol o 2005-06, ac yn darparu hyfforddiant a chymorth arall gan gynnwys **treialu cyfnodau dysgu Cymraeg i ymarferwyr**, os yn briodol, er mwyn sicrhau bod cymaint o hyfforddwyr â phosibl yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.23 Byddwn yn edrych i barhau i gynyddu cefnogaeth i **gyfieithu deunyddiau** mewn sectorau allweddol. I ddarparu'r sail dystiolaeth i gefnogi newidiadau mewn galw a darpariaeth bydd y Cyngor Cenedlaethol yn comisiynu ac yn treialu arf diagnostig i asesu'r galw am hyfforddiant a gysylltir â thargedau rhuglder cyffredinol.

4.24 Mae **Gorwelion** wedi cael ei gyflwyno i gynhyrchu gwybodaeth fwy eang gan gyflogwyr ynghylch swyddi sydd yn gofyn am sgiliau Cymraeg a'r lefel sgil sydd ei hangen. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o werth y

Gymraeg, ac yn cael eu cymhellu yn gynyddol i ddatblygu neu gaffael yr iaith ac i barhau eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.25 Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau'r Sector sicrhau fel amod o'u trwyddedau fod **Cynghorau Sgiliau'r Sector** yn llunio Cynlluniau Iaith Gymraeg ac yn delio ag anghenion sgiliau Cymraeg o fewn eu sectorau penodol.

4.26 Mae'r gwasanaeth **athrawon bro** wedi bod yn werthfawr o'r cychwyn, ac wedi bod yn fodd i wella ansawdd addysgu mewn perthynas â'r Gymraeg. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyllid ychwanegol, i'w sianelu trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i ganiatáu ar gyfer cynnydd yn nifer yr athrawon bro er mwyn cryfhau gwasanaeth sy'n cynnig cymorth ymarferol i athrawon yn yr ystafell ddosbarth wrth iddynt addysgu Cymraeg i'w disgyblion a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu.

4.27 Nod penodol y cyllid yw cefnogi gwaith 'athrawon bro' mewn ysgolion trwy hyfforddi athrawon ym methodoleg addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith. Bydd y gwasanaeth 'athrawon bro':

- yn cyfrannu at roi polisi sirol ar waith mewn perthynas ag addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith
- yn cynorthwyo i gyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol
- yn codi safonau cyflawniad disgyblion ar draws yr ystod oed a gallu lawn
- yn cynorthwyo yn y broses o sicrhau parhad wrth addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd.

4.28 Yn achos rhai sy'n hwyr-ddyfodiaid i'r Gymraeg, er enghraifft disgyblion sy'n symud i ardaloedd mwy Cymraeg Cymru ar ganol eu haddysg ac sydd ar ôl yn eu sgiliau iaith, weithiau byddant yn cael eu haddysgu am gyfnodau mewn Canolfannau Iaith i Hwyr-ddyfodiaid. Mae'r rhain i'w cael mewn nifer o AALLau ac yn cael eu rhedeg gan un neu fwy o aelodau o'r tîm Athrawon Bro. Mae'r addysgu yn seiliedig ar ddulliau trochi iaith ac mae'r dosbarthiadau yn fach. Pwrpas y canolfannau hyn yw rhoi cyrsiau Cymraeg dwys i ddisgyblion cynradd er mwyn iddynt allu elwa ar yr addysg Gymraeg a dwyieithog a gynigir gan ysgolion lleol.

4.29 Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth ar gyfer hwyr-ddyfodiaid yn cael croeso gan rieni, cyrff llywodraethol, athrawon a phrifathrawon cynradd. Maent yn adnodd pwysig yn nhermau darparu addysg Gymraeg i'r disgybl unigol a chefnogi addysg Gymraeg fel rhan o'r system addysg leol. Nod y ddarpariaeth ar gyfer hwyr-ddyfodiaid fydd:

- darparu cyrsiau byr, dwys sy'n trochi plant sy'n symud i ardaloedd Cymraeg yn yr iaith;
- darparu cyrsiau ymestyn, gwella a gloywi; a
- galluogi plant i ddychwelyd i'w hysgolion cynradd ac integreiddio i fywyd yr ysgol a'r gymuned.

Camau gweithredu a buddsoddi ar gyfer twf

4.30 Yn ogystal â'r gefnogaeth bresennol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy addysg a dysgu gydol oes cymerir y camau penodol canlynol:

Disgrifiad	Diben	Corff Arweiniol
Twf- Trosglwyddo iaith yn y Teulu	Prosiect cymunedol i annog rhieni sy'n siarad Cymraeg i drosglwyddo'r iaith i'w plant.	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Addysg Feithrin Ddwyeithog	Penodi gweithiwr datblygu i hyrwyddo darpariaeth addysg feithrin ddwyeithog a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth	Mudiad Ysgolion Meithrin
Addysg Feithrin Ddwyeithog	Adolygu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn nhermau ystod, darpariaeth ieithyddol, problemau cefn gwlad ac anghenion yn y dyfodol. Gan dynnu ar y wybodaeth hon, sefydlu targed penodol ar gyfer nifer y plant sy'n mynd i addysg feithrin cyfrwng Cymraeg neu ddwyeithog	Llywodraeth y Cynulliad gyda Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar
Addysg Feithrin Ddwyeithog	Cynyddu'r ddarpariaeth i hyfforddi ymarferwyr iaith Gymraeg neu'r rhai hynny sy'n medru peth Cymraeg i symud i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cefnogi darparwyr cyfrwng Cymraeg presennol i godi safonau a sgiliau fel y gallant gyfrannu at ymestyn lleoedd wedi eu cyllido. Dros amser, gweithio tuag ymestyn lleoedd cyfrwng Cymraeg a rhoi'r newidiadau cwricwlwm yn eu lle ar gyfer y tymor hwy ar gyfer y cam sylfaenol.	Llywodraeth y Cynulliad trwy Bartneriaethau Blynyddoedd Cynnar a chydag awdurdodau lleol a darparwyr eraill megis Mudiad Ysgolion Meithrin
Diffinio darpariaeth iaith	Comisiynu cyngor ynghylch diffinio darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion oddi wrth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.	Llywodraeth y Cynulliad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Deunyddiau cwricwlwm, cymwysterau ac ystafell ddosbarth	Comisiynu deunyddiau o ansawdd da i'r ystafell ddosbarth ac ymestyn cyfleon i ennill cymwysterau trwy'r Gymraeg	ACCAC

Ail bwynt mynediad i astudio cyfrwng Cymraeg/ addysg drochi	Treialu dulliau o roi cyswllt dwys â'r Gymraeg i ddisgyblion (mewn ysgolion cynradd) er mwyn iddynt allu symud o ysgolion cyfrwng Saesneg i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu i hwyluso astudio mwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg	Llywodraeth y Cynulliad. gyda Bwrdd yr Iaith / Estyn ac ACCAC
Cefnogi'r cyflenwad o athrawon cyfrwng Cymraeg	Gwella'r dull o weithredu a hyrwyddo'r cynllun Taliad Atodol Cymhelliant Cymraeg sy'n annog myfyrwyr ITT i hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg a'u gwneud yn fwy deniadol trwy godi lefel grantiau a gwella cefnogaeth	Llywodraeth y Cynulliad
Cyfnodau sabothol dysgu iaith	Ar gyfer staff addysgu ym mhob cyfnod addysgol o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. 100 o athrawon ar cyfnod sabothol tri mis bob blwyddyn	Llywodraeth y Cynulliad
Cynllunio darpariaeth	Sicrhau bod cynlluniau trefniadaeth ysgolion yn cymryd Cynlluniau Addysg Gymraeg awdurdodau lleol i ystyriaeth hefyd.	Llywodraeth y Cynulliad
Anghenion Addysgol Arbennig	Ystyried yr anghenion ar gyfer darpariaeth Gymraeg mewn AAA; datblygu cynllun gweithredu yn ôl yr angen	Llywodraeth y Cynulliad
Ymarferwyr Anghenion Addysgol Arbennig	Treialu hyfforddiant/cyfnodau sabothol ar gyfer therapyddion lleferydd	Llywodraeth y Cynulliad
Adroddiad HEFCW ar lefelau cyflenwad a glaw ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn AU	Adnabod tueddiadau a chynllunio lefelau darpariaeth a chyflenwad mewn AU cyfrwng Cymraeg at y dyfodol, gan gynnwys camau posibl i gynyddu'r galw.	Llywodraeth y Cynulliad
Cefnogi'r cyflenwad o staff AB cyfrwng Cymraeg	Treialu cyfnodau dysgu sabothol i ymarferwyr	Llywodraeth y Cynulliad gyda HEFCW
Agwedd strategol tuag at ddysgu ôl-16 nad yw'n addysg uwch	Bydd Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant ELWa yn datblygu strategaeth tymor hir ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg	ELWa
Ymchwilio i'r cyfleuon ar gyfer sefydlu canolfannau	Rhoi cyfleon i oedolion sy'n siarad Cymraeg i gael mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg effeithiol a chyson	Llywodraeth y Cynulliad gydag ELWA CC

Cymraeg i Oedolion pwrpasol		
Gorwelion	Rhoi gwybodaeth i gyflogwyr a darpar weithwyr am swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg gan ddangos gwerth y Gymraeg yn y farchnad swyddi	Llywodraeth y Cynulliad
Sgiliau a chynhyrchiant	Ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sectorau sicrhau bod cynghorau sgiliau sector dan arweiniad cyflogwyr sy'n delio â materion sgiliau a chynhyrchiant yn llunio Cynlluniau Iaith Gymraeg ac yn delio ag anghenion sgiliau iaith Gymraeg yn eu sectorau.	Llywodraeth y Cynulliad gyda SSDA
Deunyddiau Addysgol Electronig [Grid Dysgu Cenedlaethol (NGfL) Cymru]	Rhan o <i>Cymru Ar-lein</i> , bydd hwn yn andabod ac yn datblygu deunydd electronig yn Gymraeg a Saesneg a chefnogi datblygu'r Cwricwlwm Cymreig.	Llywodraeth y Cynulliad trwy NGfL Cymru
Athrawon bro	Cynyddu nifer yr athrawon bro	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Canolfannau hwyrddyfodiaid	Darparu cyrsiau Cymraeg i blant syu'n symud i ardaloedd Cymraeg	Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Dewis a defnyddio iaith

4.31 Ochr yn ochr â pholisïau i helpu unigolion i gaffael neu ddysgu'r iaith, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i sicrhau bod cyfleon i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd. Yn y man cyntaf mae hyn yn golygu gwarchod a hyrwyddo hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae Cymraeg yn un o ieithoedd swyddogol bywyd cyhoeddus yng Nghymru a byddwn yn disgwyl i bob sefydliad a chorff a enwir o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg gydymffurfio â'u cynlluniau iaith a darparu eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg. Mae cyllid i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei gynyddu i'w alluogi i fonitro cynlluniau sydd eisoes yn eu lle ac i weithio gyda sefydliadau sydd newydd eu henwi o dan y Ddeddf i lunio cynlluniau newydd.

4.32 Mae'r gallu i ddewis iaith yn rhan bwysig o ddarpariaeth gwasanaeth gofal o safon uchel. Tynnodd adroddiad Cyngor Defnyddwyr Cymru, '***Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd***' (2000) sylw at grwpiau penodol, sef pobl hyn, plant ifanc a phobl ag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl ble roedd yn arbennig o bwysig bod gwasanaethau yn cael eu cyflenwi yn Gymraeg. Roedd yr adroddiad yn dweud mai dim ond yn eu hiaith gyntaf y gellid trin siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau hyn yn effeithiol, mewn sawl achos.

4.33 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol o bwysleisio pwysigrwydd gallu cyflenwi gwasanaeth yn yr iaith a ddewisir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth mewn meysydd gwasanaeth allweddol megis gofal iechyd a chymdeithasol, ac rydym yn cydweithio â'r sefydliadau cyflenwi gwasanaeth yn y meysydd hyn i'w helpu i gyrraedd y nod hwn.

- Yn Awst 2001, sefydlwyd **Gweithgor Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg** i wella a hwyluso darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr GIG a sefydliadau partner yng Nghymru. Mae'r Gweithgor wrthi'n datblygu a gweithredu rhaglen ymwybyddiaeth iaith ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr ym mhob Ymddiriedolaeth GIG a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o sensitifrwydd iaith fel ffactor wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Gweithgor hefyd wrthi'n comisiynu Prosiect Ymwybyddiaeth Iaith mewn Ymchwil Gofal Iechyd, a fydd yn edrych ar lefelau ymwybyddiaeth iaith ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru.
- Gwaith **Uned Iaith Gymraeg GIG Cymru** yw monitro polisiau a materion Cymraeg o fewn GIG Cymru. Bydd yr Uned yn codi ymwybyddiaeth, statws a phwysigrwydd materion iaith o fewn yr GIG yng Nghymru, ac Adran GIG Cymru.
- Mae'r ddau ddeg dau o **Fyrddau Iechyd Lleol** (a fydd ar waith erbyn Ebrill 2003, yn lle Awdurdodau Iechyd a Grwpiau Iechyd Lleol yng Nghymru) yn gweithio ochr yn ochr â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddrafftio a chyfansoddi cynlluniau iaith Gymraeg yn barod at pan fyddant yn cychwyn yn Ebrill 2003.

4.34 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol hefyd o'r angen i gynyddu ystod **gwasanaethau clinigol** trwy gyfrwng y Gymraeg yn enwedig yn nhermau cyflenwi therapi lleferydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofal Cymdeithasol

4.35 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn amlinellu'r fframwaith polisi y mae awdurdodau lleol yn darparu ac yn comisiynu gwasanaethau cymdeithasol i bobl agored i niwed, teuluoedd a gofalwyr o'i fewn. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth sicrhau bod ganddynt y gallu i ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn Gymraeg, er mewn sawl achos bydd eu cynlluniau iaith Gymraeg a gytunir yn lleol yn dylanwadu ar y ffordd y cyflenwir y gwasanaeth a'r iaith a ddefnyddir.

4.36 Mae pobl hyn yn un o'r grwpiau allweddol o siaradwyr Gymraeg na ellir eu trin na gofalu amdanynt yn effeithiol mewn llawer achos ond yn eu hiaith gyntaf. Bydd **Cynllun Gweithredu Strategaeth Pobl Hyn** yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

4.37 Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ill dwy wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaeth dwyieithog yn cael ei ddarparu mewn perthynas â'u swyddogaethau rheolaethol.

Pobl ifanc

4.38 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol iawn, os yw'r Gymraeg yn mynd i ffynnu, fod angen i bobl ifanc yn enwedig ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth o'r iaith a'i gweld fel eu hiaith hwy ac nid iaith yr ysgol a diwylliant yn unig. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i sicrhau ein bod ni'n cynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl i'n pobl ifanc a rhai yn eu harddegau i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd hamdden a chymdeithasol bob dydd. Mae'r Cynlluniau Gweithredu iaith lleol yn canolbwyntio ar ddwyn pobl ifanc a sefydliadau lleol ynghyd i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd cyrff sy'n cynrychioli pobl ifanc megis ysgolion lleol, clybiau ieuenctid, Urdd Gobaith Cymru a chlybiau Ffermwy'r Ifanc lleol ymysg y sefydliadau partner.

4.39 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cynyddu'r arian y mae'n ei sianelu trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg i alluogi Urdd Gobaith Cymru i ddatblygu **prosiectau chwaraeon ac ieuenctid** trwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwahanol rannau o Gymru, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd gwledig difreintiedig. Rydym hefyd wedi darparu cyllid i Fwrdd yr Iaith Gymraeg benodi **swyddogion marchnata** gyda'r dasg benodol o weithio gyda phobl ifanc a sefydliadau pobl ifanc i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a gwaith.

4.40 Mae strategaeth Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth y Cynulliad – Fframwaith ar gyfer Partneriaeth, yn seiliedig ar Gytundeb Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig. Rydym wedi sefydlu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc Lleol ym mhob ardal awdurdod lleol i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau i bobl ifanc rhwng 11-25 oed. Bydd y Partneriaethau yn llunio cynlluniau Fframwaith y bydd angen iddynt gydnabod pwysigrwydd diwylliant a'r iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau lleol ac wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau.

Codi ymwybyddiaeth a phroffil

4.41 Weithiau mae siarad Cymraeg yn fater o gael yr hyder i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Un gred sy'n syndod o gyffredin yw nad yw'r Gymraeg yn iaith busnes neu waith er enghraifft. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n galed, trwy gyfrwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i **farchnata a hyrwyddo'r iaith** ym mhob agwedd ar fywyd Cymru. Mae llawer o sefydliadau a busnesau yn y **sectorau preifat a gwirfoddol** eisoes yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg neu yn gweithio tuag at wneud hyn. Er na fyddwn yn ymofyn am ddeddfwriaeth i orfodi'r sectorau hyn yn gyffredinol i gyflenwi eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn eu hannog yn gryf i ymgymryd â'r cyfrifoldeb o ddatblygu a darparu gwasanaethau dwyieithog ac i fanteisio ar gyngor ac arbenigedd Bwrdd yr Iaith yn y maes hwn. Dylid edrych ar ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg fel ffordd o ddarparu gwasanaethau unigryw ac o ansawdd gwell i gwsmeriaid. Byddwn yn adeiladu ar ymgyrch gyntaf lwyddiannus **Iaith Gwaith** Bwrdd yr Iaith i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes a byddwn yn annog Bwrdd yr Iaith i ddatblygu ymgyrchoedd pellach. Rydym wedi neilltuo cyllid ychwanegol i alluogi'r Bwrdd i ddatblygu ei waith yn perswadio, annog a chefnogi'r sectorau preifat a gwirfoddol i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a bydd **Cymraeg yn y Gweithle** yn cael ei hyrwyddo'n egniol. Bydd ymgyrchoedd marchnata eraill gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn canolbwyntio ar hyrwyddo a marchnata manteision dwyieithrwydd fel sgil ac adnodd busnes pwysig.

4.42 Fel rhan o'r strategaeth i godi proffil a statws yr iaith yn y sectorau busnes a hamdden yng Nghymru, bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn parhau i ddatblygu arweiniad a darparu cyngor i sefydliadau ar oblygiadau a thechnegau defnyddio'r Gymraeg i ddatblygu cysyniadau dylunio. Mae hyn yn cynnwys datblygu logos, deunydd cyhoeddusrwydd, pecynnu a stondinau mewn arddangosfeydd.

Arfau iaith

4.43 Mae nifer o brosiectau ar y gweill gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a fydd yn ehangu ystod y gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Ymysg pethau eraill, maent yn adlewyrchu pwysigrwydd datblygu cyfleon newydd i ddefnyddio'r iaith a sicrhau ei bod yn cael ei hyrwyddo ar y Rhyngwryd ac mewn pecynnau TG newydd. Mae'r prosiectau yn cynnwys:

- rheoli a chomisiynu prosiectau gyda'r nod o safoni terminoleg ac enwau lleoedd a datblygu **cronfa ddata** o dermau safonol.
- bydd y gronfa ddata genedlaethol hon yn cael ei datblygu ar ffurf a fydd yn cyd-daro â chronfa ddata cof cyfieithu genedlaethol, fydd yn dileu'r angen i gyfieithu'r un peth ddwywaith. Bydd y gronfa ddata hon yn rhyngwynebu â *Chymru Ar-lein*.
- datblygu, ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, strategaeth gyfieithu genedlaethol, a phroject i ddatblygu'r Gymdeithas, dan

arolygiaeth y Bwrdd, yn gorff rheoleiddio ar gyfer y proffesiwn; datblygu **cymhorthion geiriadurol a chyfieithu peirianyddol** i gyfieithwyr ac eraill sy'n gweithio gyda'r Gymraeg; fel rhan o *Gymru Ar-lein*, datblygu **strategaeth TGCh** i gynyddu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhyngwlad ac mewn pecynnau TG i ychwanegu at y rhestr bresennol o adnoddau cyfrifiadurol sydd ar gael yn Gymraeg ar wefan Bwrdd yr Iaith a'r fforwm trafod ar gyfer materion yn ymwneud â'r Gymraeg a TGCh ar wefan Cymru Ar-lein. Bydd y strategaeth yn ddogfen fyw fydd yn mynd i'r afael â phob maes TGCh.

Diwylliant

4.44 Mae'r iaith Gymraeg yn elfen bwysig yn ein diwylliant a'n hunaniaeth genedlaethol. Mae gweithgareddau diwylliannol yn cryfhau ac yn hyrwyddo defnydd o'r iaith ac yn helpu i'w hymgorffori ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd. Maent hefyd yn darparu llwybr ar gyfer mynegi ein gallu creadigol fel pobl. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi amrywiaeth mawr o weithgareddau diwylliannol.

4.45 Mae **Urdd Gobaith Cymru** yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth dynnu pobl ifanc ledled Cymru i amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg. Un o'r digwyddiadau pwysicaf ym mywyd diwylliannol a chymdeithasol Cymru yw'r **Eisteddfod Genedlaethol**. Byddwn yn parhau i sianelu cefnogaeth i'r ddau sefydliad yma sy'n cefnogi, yn hyrwyddo ac yn cynnal yr iaith.

4.46 Mae **darlledu** yn chwarae rhan bwysig mewn cadarnhau sawl agwedd o bolisi iaith ehangach y Llywodraeth ac yn tanlinellu statws yr iaith. Mae'r gwasanaeth teledu a ddarperir gan S4C ynghyd â BBC Radio Cymru yn ei gwneud yn bosibl i'r iaith fod yn rhan o fywyd bob dydd. Gall teledu yn enwedig fod yn ffynhonnell gefnogaeth bwysig i'r rhai hynny sy'n dysgu'r iaith. Ynghyd â ffilm, mae hefyd yn darparu cyfrwng sy'n dod â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig i sylw cynulleidfaoedd trwy'r byd. Un peth hollbwysig yw bod darlledu yn Gymraeg yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc gyda dawn greadigol yn cael llwyfan i ddatblygu'r ddawn honno ac i adeiladu eu gyrfaoedd trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda phopeth mae hynny'n ei olygu ar gyfer iechyd yr iaith yn y dyfodol.

4.47 Byddwn yn defnyddio'r fforwm diwylliannol Cymru'n Creu i drafod gyda darlledwyr yng Nghymru y cyfle sydd ganddynt i wneud cyfraniad mwy fyth yn y dyfodol. Gall hyn fod fel rhan gynhenid o ddatblygiadau polisi unigol neu i gefnogi nod ehangach Llywodraeth y Cynulliad sef dwyieithrwydd. Rhaid i ni fod yn effro hefyd i'r newidiadau pwysig yn amgylchedd rheoleiddio'r sector darlledu a chyfathrebu sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn cymryd camau i sicrhau y bydd y rheoleiddiwr darlledu newydd OFCOM mewn sefyllfa i gymryd cyfrif llawn o amgylchedd darlledu unigryw Cymru a materion darlledu Gymraeg.

4.48 Er mwyn ysgogi a chryfhau'r sector cyfryngau ymhellach, gan fod ganddo gryn botensial i dyfu, mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn

datblygu **Cronfa Ffilm, Teledu a'r Cyfryngau Newydd i Gymru**. Bydd y gronfa yn helpu i ddenu buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu sylfaen sgiliau ac isadeiledd sector y cyfryngau yng Nghymru, a bydd yn cynnwys cwtâu penodol i gefnogi cynhyrchu ffilmiau Cymraeg.

4.49 Mae S4C a ffilmiau Cymraeg megis “Hedd Wyn”, “Solomon a Gaenor” a “Gadael Lenin” yn cynrychioli drama Gymraeg ar ffilm mewn ffordd gref a hynod amlwg ond mae angen cyfrwng proffil uchel tebyg ar gyfer theatr fyw. Felly mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu sefydlu **Theatr Gymraeg Genedlaethol**. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi neilltuo £250,000 i gychwyn y datblygiad hwn. Mae'r arian cychwynol ar gyfer dau gynhyrchiad Cymraeg ac i sefydlu'r cwmni a fydd yn hyrwyddo'r datblygiad hwn a dod â drama fyw i gynulleidfaoedd Cymraeg ledled Cymru. Bydd y fenter hon yn hybu statws a phroffil theatr Gymraeg, yn annog actorion, awduron a chynhyrchwyr sydd am weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r un mor bwysig, yn ychwanegu at yr ystod o weithgareddau cymdeithasol a hamdden sydd ar gael i'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y Gymraeg.

4.50 Un o'r ieithoedd ysgrifenedig hynaf yn Ewrop yw'r Gymraeg. Mae'n hollbwysig cefnogi ysgrifennu yn Gymraeg wrth barhau i ddatblygu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith gan sicrhau bod y gair ysgrifenedig yn berthnasol i fywyd bob dydd ac yn ei adlewyrchu. Bydd Llywodraeth y Cynulliad, trwy Gyngor Celfyddydau Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn parhau i gefnogi cylchgronau a phapurau bro Cymraeg yn ariannol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cynyddu ei chefnogaeth i Gyngor Llyfrau Cymru, sydd bellach yn derbyn nawdd yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn galluogi'r Cyngor i gomisiynu awduron i ysgrifennu teitlau ychwanegol, a hefyd bydd yn sicrhau bod cwmnïau cyhoeddi a llyfrwerthwyr annibynnol yn cael cefnogaeth ychwanegol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cyngor a chyhoeddwyr i gryfhau a datblygu'r diwydiant yng Nghymru a sicrhau ei fod yn cadw mewn cysylltiad â newid mewn technoleg.

Camau gweithredu

Disgrifiad	Diben	Corff arweiniol
Rhaglen ymwybyddiaeth iaith GIG	Datblygu dealltwriaeth o sensitifrwydd iaith wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ymysg staff a myfyrwyr GIG	Llywodraeth y Cynulliad / Gweithgor
Uned iaith Gymraeg GIG	Codi ymwybyddiaeth, statws a phwysigrwydd materion iaith o fewn GIG Cymru	Llywodraeth y Cynulliad
Cynlluniau iaith Gymraeg ar gyfer byrddau iechyd lleol	Sicrhau bod gan yr holl fyrddau iechyd lleol gynlluniau cymeradwy yn barod ar gyfer Ebrill 2003	Llywodraeth y Cynulliad
Gwella gallu darparwyr gofal cymdeithasol i ddarparu	Galluogi darparwyr gofal cymdeithasol i ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn Gymraeg	Llywodraeth y Cynulliad

gwasanaethau Cymraeg		
Gweithwyr ieuenctid ar gyfer Urdd Gobaith Cymru	Cynyddu'r ystod o weithgareddau dysgu, cymdeithasol a chwaraeon/hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg	Llywodraeth y Cynulliad / Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Marchnata a hyrwyddo'r Gymraeg	Codi proffil a defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith, busnes, cymdeithasol a hamdden	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Datblygu strategaeth TGCh ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ar y rhyngrwyd ac ehangu cymhorthion cyfieithu peirianyddol	Helpu i godi ymwybyddiaeth a hwyluso defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o weithgareddau a sefydliadau	Cymru Ar-lein / Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Datblygu strategaeth gyfieithu genedlaethol	Sicrhau cysondeb a datblygu cymhwyster safonol ar gyfer cyfieithwyr	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cronfa Ffilm, Teledu a Chyfyngau Newydd	Darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer y sectorau cyfyngau hyn	Llywodraeth y Cynulliad/ Finance Wales/ Sgrin
Cefnogi Cyhoeddi yng Nghymru	Darparu cefnogaeth ychwanegol i Gyhoeddi trwy Gyngor Llyfrau Cymru	Cyngor Llyfrau Cymru
Sefydlu Theatr Gymraeg Genedlaethol	Rhoi hwb a ffocws i'r ddrama Gymraeg	Cyngor Celfyddydau Cymru/ Llywodraeth y Cynulliad

5. Casgliad

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ei gorau i greu'r amodau iawn a darparu'r adnoddau a fydd yn cynnal yr iaith Gymraeg ac yn caniatáu iddi ffynnu.

Mae'r mesurau a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu hwn yn sylweddol ac yn bwysig. Maent yn dangos maint ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg. Credwn ein bod yn creu'r amodau iawn lle gall yr iaith Gymraeg dyfu a ffynnu. Bydd y polisiau a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu hwn yn cynyddu amrediad y cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg yn fawr iawn; bydd ein hymrwymiad i roi'r iaith yn y brif ffrwd yn sicrhau y bydd ystyriaeth o faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn treiddio trwy'r gwaith o lunio polisiau a chyflwyno rhaglenni sefydliadau ledled Cymru. Rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer dyfodol tymor hir a chadarnhaol i'r iaith Gymraeg.

Ond nid yw camau sefydliadol neu wleidyddol yn ddigon ar eu pen eu hunain i achub yr iaith. Rhaid i'r gwaith o gynnal yr iaith Gymraeg fod yn gyd-ymdrech ar ran Llywodraeth Cymru a phobl Cymru. Nid yw'r strwythurau a ddisgrifir yn y ddogfen hon ar gyfer bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu yn y blynyddoedd sydd i ddod yn llai pwysig i lwyddiant ein strategaeth na'r mesurau rhagweithiol a ddisgrifir. Cynlluniwyd y strwythurau hynny i rannu perchnogaeth a chyfrifoldeb dros dynged yr iaith Gymraeg. Ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd cyfraniad cyrff eraill – yn awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, y sectorau preifat a gwirfoddol. Ond yn y pen draw os yw'r iaith i oroesi rhaid i unigolion gymryd perchnogaeth ohoni – sy'n golygu cael pobl i gymryd rhan mewn mentrau cymunedol i hyrwyddo'r iaith, rhieni yn trosglwyddo'r iaith i'w plant ac unigolion yn ymroi i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac mewn busnes.

Nid oes gennym unrhyw amheuaeth fod dyfodol cadarnhaol i'r Gymraeg os bydd pobl Cymru yn rhannu ein gweledigaeth.

Gyda'n gilydd, gallwn greu Cymru sy'n wirioneddol ddwyieithog.